Yn eu geiriau eu hunain

Sut mae elusennau wedi ymateb ym mlwyddyn gyntaf y Ffurflen Gwybodaeth Gryno

COMISIWN ELUSENNAU

Dyma'r flwyddyn gyntaf iddi fod yn ofynnol i elusennau gydag incwm blynyddol gros o fwy na £1 miliwn gyflwyno Ffurflen Gwybodaeth Gryno (FfGG) i'r Comisiwn Elusennau. Mae'r FfGG yn tynnu sylw at wybodaeth ansoddol a meintiol allweddol ynghylch gwaith elusennau. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno casgliadau ein hymchwil ansoddol i sampl o ffurflenni ac mae'n cynnwys enghreifftiau o'r gwahanol ymagweddau a fabwysiadwyd gan rai elusennau.

Tabl Cynnwys

Cyflwyniad

1. Dull **3**

2. Sylwadau cyffredinol **4**

Hygyrchedd 4
Cyfeirio 4
Is-gwmnïau 4
Arwyddo 4

3. Cwestiynau ac ymatebion **5**

Cwestiwn 1) - Nodau'r elusen 5
Cwestiwn 2a) - Pwy sy'n elwa 7
Cwestiwn 2b) - Ymateb i anghenion 8
Cwestiwn 3a) - Strategaeth yr elusen 10
Cwestiwn 3b) - Mesur llwyddiant 11
Cwestiwn 4) - Amcanion a chyraeddiadau 12
Cwestiwn 5a) - Ffynonellau incwm 14
Cwestiwn 5b) - Gweithgareddau a chostau 14
Cwestiwn 5c) - Gweithgareddau codi arian 15
Cwestiwn 6) - Cyflwr ariannol 16
Cwestiwn 7a) - Effaith perfformiad 17
Cwestiwn 7b) - Amcanion y flwyddyn nesaf 19
Cwestiwn 8) - Llywodraethu elusen 20

4. Casgliad **22**

Atodiad A - Gwybodaeth gefndir **23**

Atodiad B - Copi o'r FfGG gyfredol **24**

Atodiad C - Rhestr termau **29**

Atodiad Ch - Adnoddau **31**

Atodiad D - Llyfryddiaeth **32**

Cyflwyniad

Mae disgwyliadau elusennau, ar ran cyllidwyr, buddiolwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol, yn cynyddu. Mae ymchwil y Comisiwn Elusennau ei hun hefyd wedi tynnu sylw at alw cyhoeddus cryf am wybodaeth ynghylch sut mae elusennau'n gwario eu harian a'r hyn y maent wedi'i gyflawni.[1] Ar yr un pryd, mae annog darparu gwybodaeth well i ddefnyddwyr am wasanaethau a darparwyr yn cael ei ystyried yn un ffordd o 'rymuso dinasyddion' a lleihau'r angen am reoleiddio traddodiadol.[2] Fodd bynnag, mae mwy na dwy ran o dair o'r cyhoedd yn cyfaddef nad ydynt yn gwybod llawer am y ffordd y mae elusennau'n cael eu rhedeg.[3]

Gan ymateb i'r angen canfyddedig hwn am fwy o wybodaeth, roedd adroddiad Uned Strategaeth y Llywodraeth *Gweithredu Preifat, Budd Cyhoeddus*[4] wedi argymell y dylai'r cyhoedd gael mynediad i wybodaeth fwy perthnasol, amserol a hygyrch ynghylch effeithiolrwydd, perfformiad a sefyllfa ariannol elusennau mwy.

Ar ôl ymgynghori helaeth, yn 2005 cyflwynwyd y Ffurflen Gwybodaeth Gryno (FfGG)[5] , sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i bob elusen gydag incwm blynyddol gros o fwy na £1 miliwn gwblhau'r ffurflen. Credwn fod rôl bwysig gan y FfGG i'w chwarae o ran rhoi mwy o wybodaeth i'r cyhoedd, fel defnyddwyr â diddordeb a threthdalwyr, ynghylch sut mae gwahanol elusennau yn cynnig budd i gymdeithas a'r hyn y maent wedi'i gyflawni.

Ond mae'r sector yn un amrywiol iawn o ran natur. Gall dwy elusen gydag amcanion yr union yr un fath geisio cyflawni'r amcanion hynny mewn ffyrdd gwahanol iawn, er enghraifft, trwy ddarparu naill ai grantiau neu wasanaethau rheng-flaen. Felly mae'r adroddiad hwn yn dangos sut y mae sampl o elusennau wedi ateb y cwestiynau ar y FfGG, drwy ddyfynnu'n uniongyrchol o'u FfGG.

Mae diddordeb brwd eisoes yn y ffurflen a sut mae elusennau wedi'i chwblhau: er enghraifft, er iddi fod yn ei dyddiau cynnar, llwythwyd i lawr FfGG o'n gwefan bron 25,000 o weithiau hyd at ddiwedd Hydref 2006.

Nid yw'r FfGG yn ddyfais reoleiddio, felly nid ydym wedi cynnig sylwadau yn yr adroddiad hwn ar ansawdd ymatebion unigol. Fodd bynnag, roeddem wedi canfod, trwy ein dadansoddiad ar gyfer yr adroddiad hwn, bod rhai elusennau wedi gwneud tipyn o ymdrech i esbonio eu gweithgareddau i randdeiliaid a beth fu effaith eu gweithgareddau. Pan fydd hyn yn cael ei wneud yn dda, bydd yn gwneud llawer i helpu darllenwyr ddeall elusennau a sut y maent yn gweithredu. Fodd bynnag, credwn nad yw nifer o elusennau yn cymryd mantais lawn eto o'r cyfle y mae'r FfGG yn ei gynnig.

Mae ein hymchwil wedi dweud llawer wrthym hefyd ynghylch sut y gallwn ddatblygu'r FfGG. Yn dilyn ein casgliadau, byddwn yn newid y *Nodiadau Canllaw* i'r FfGG a'r ffurflen ei hun i'w gwneud yn gliriach, er mwyn sicrhau bod elusennau yn cael y budd mwyaf posib o'r FfGG. Bydd y casgliadau yn helpu llywio ein hadolygiad o'r broses FfGG gyfan yn 2007.

Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn dangos rhai o'r ffyrdd amrywiol y mae elusennau wedi defnyddio'r FfGG hyd yma, ac yn ysbrydoli elusennau i adeiladu ar yr ymatebion hyn i adrodd eu stori eu hunain - yn eu geiriau eu hunain - wrth iddynt gwblhau'r FfGG yn y blynyddoedd i ddod.

1. Fel rhan o'n hymchwil ar gyfer ein hadroddiad *Tryloywder ac Atebolrwydd* (RS8: 2004), arolygwyd 1,000 o aelodau'r cyhoedd i geisio eu barn ar y wybodaeth y mae elusennau yn ei chynnig. Dywedodd 85% ei fod yn 'bwysig' neu'n 'bwysig iawn' i elusennau ddarparu gwybodaeth ar ba weithgareddau elusennol yr oeddent wedi gwario eu harian arnynt; roedd 84% o ymatebwyr o'r farn ei fod yn 'bwysig' neu'n 'bwysig iawn' i elusennau ddarparu gwybodaeth ar yr hyn yr oeddent wedi'i gyflawni.
2. Ymateb i lythyr y Prif Weinidog yn penodi'r Gwir Anrhydeddus Hilary Armstrong AS fel y Gweinidog ar gyfer Swyddfa'r Cabinet ac Allgau Cymdeithasol. Swyddfa'r Cabinet (18 Gorffennaf 2006).
3. Opinion Leader Research ar gyfer y Comisiwn Elusennau (2005): *Report of findings of a survey of public trust and confidence in charities.*
4. *Gweithredu Preifat, Budd Cyhoeddus: Adolygiad o Elusennau a'r Sector Di-elw Ehangach*. Swyddfa'r Cabinet (2002).
5. Ar yr un pryd cyhoeddwyd *Nodiadau Canllaw ar gyfer y Ffurflen Gwybodaeth Gryno; cyfeirir* atynt fel y *Nodiadau Canllaw* trwy gydol yr adroddiad. Mae'r *Nodiadau Canllaw* ar gael ar ein gwefan: http://www.charitycommission.gov.uk/investigations/sir2005notes.asp

1. Dull

Disgwyliwn i elusennau gydag incwm blynyddol gros o fwy na £1 miliwn yn y flwyddyn ariannol flaenorol gyflwyno FfGG.[6] I roi hyn mewn cyd-destun, roedd rhyw 5,000 o elusennau wedi'u cynnwys yn y band incwm hwn ym Medi 2006. Mae'r elusennau hyn yn cynrychioli llai na 3% o gyfanswm yr elusennau ar Gofrestr Elusennau Cymru a Lloegr[7], ond mae eu hincwm cyfunedig yn fwy na 80% o gyfanswm incwm blynyddol y sector.

Cynhaliwyd dadansoddiad ansoddol o sampl o 130 o ffurflenni yn cyfeirio at y flwyddyn ariannol 2004/05[8]. Roedd ein sampl wedi'i ffurfio o'r 100 ffurflen gyntaf a gyflwynwyd i'r Comisiwn, a hefyd hap sampl o 30 o ffurflenni a gyflwynwyd wedi hynny. Canolbwyntiwyd ar adnabod a dangos y gwahanol ymagweddau y mae elusennau wedi'u mabwysiadu wrth ateb pob cwestiwn. Rydym wedi dyfynnu'n uniongyrchol o ymatebion elusennau i ddangos yr ymagweddau amrywiol.

Cynulleidfa arfaethedig y FfGG yw'r cyhoedd â diddordeb: nid ein lle ni yw dweud beth sy'n gweithio a beth nad yw'n gweithio. Felly rydym wedi ceisio peidio â barnu ymatebion unigol fel rhai 'da' neu 'ddrwg'. Ar wahân i ystyried cyfrifon elusennau ar gyfer Cwestiwn 5, nid ydym wedi dadansoddi ymatebion unigol neu wedi cymharu atebion. Fodd bynnag, yn yr adran *Sylwadau cyffredinol* isod, rydym wedi mynegi ein barn ac wedi rhoi rhai ffigurau cyffredinol ar agweddau mwy ffeithiol cwblhau'r FfGG, megis cynllun a chyfeirio.

6. Ers 2005, bu modd i elusennau gyflwyno eu Ffurflenni Blynyddol, gan gynnwys y FfGG, yn uniongyrchol trwy ddefnyddio ein gwasanaeth cyflwyno ar-lein newydd. Mae ein Hafan Gwasanaethau Ar-lein i'w gweld yn: https://www.charitycommission.gov.uk/officeforms/ccportal.ofml
7. Fel ar Fedi 2006, roedd 168,115 o brif elusennau a 22,119 o is-elusennau wedi cofrestru gyda'r Comisiwn, gyda chyfanswm incwm blynyddol o fwy na £40 biliwn.
8. Incwm cyfunol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2004/05 yr elusennau yn ein sampl oedd £1.02 biliwn; mae hyn yn cynrychioli 2.6% o'r cyfanswm incwm tybiedig ar gyfer pob elusen yn 2005.

2. Sylwadau cyffredinol

Hygyrchedd

Rydym yn cyhoeddi cyfeirlyfr A - Y o ffurflenni FfGG wedi'u cwblhau a gwybodaeth arall[9] ar ein gwefan. Dim ond un elusen o'r sampl o 130 oedd wedi dewis cysylltu ei gwefan â'i FfGG ar ein gwefan.

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yr ymatebion yn ein sampl wedi'u cyflwyno'n glir ac roedd y ffurflenni eu hunain yn hawdd eu llywio. Mewn ambell i achos, gallai'r cyflwyniad gael ei wella trwy rannu darnau mawr o destun yn baragraffau llai neu drwy ddefnyddio pwyntiau bwled. Roedd rhai o'r saith ffurflen mewn llawysgrifen yn anodd eu darllen.

Roedd 39 o'r 130 o elusennau yn defnyddio jargon a byrfoddau na fyddai darllenwyr cyffredin, sef y gynulleidfa arfaethedig ar gyfer y FfGG, yn eu deall o bosib.

Cyfeirio

Roedd ein hymchwil hefyd wedi dadansoddi'r mathau o wybodaeth y mae elusennau'n cyfeirio ati, gan ddefnyddio blychau 'Manylion pellach i'w cael o' ar draws y ffurflen gyfan. Roedd bron pob un o'r elusennau wedi cynnwys cyfeirio o ryw fath, a dim ond wyth ffurflen oedd heb unrhyw gyfeirio o gwbl.

- Roedd 64 o elusennau yn cyfeirio'r darllenydd at unigolion neu swyddogion - a enwir neu fel arall - o fewn eu sefydliadau, y gallent gael mwy o wybodaeth oddi wrthynt.
- Roedd 60 o ffurflenni wedi cyfeirio at adroddiad blynyddol a chyfrifon elusen neu adolygiad blynyddol, ond dim ond 18 o elusennau oedd yn cyfeirio'r darllenydd at gynllun busnes neu strategol. Roedd tair elusen yn cyfeirio'r darllenydd at adrannau penodol o ddogfennau adroddiad blynyddol a chyfrifon, cynllun strategol neu adolygiad canol blwyddyn.
- Roedd 34 o elusennau yn cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth eraill, er enghraifft, trwy roi cyfeiriad post yr elusen neu gyfeiriad e-bost generig. Roedd un elusen[10] yn cyfeirio at ystod o wybodaeth, gan gynnwys taflenni newyddion, llyfrynnau gwybodaeth i gleifion a ffynonellau meddygol a gwyddonol allanol (ymysg eraill).

Roedd yn syndod gweld nad oedd unrhyw wefan gan 20 elusen yn y sampl. O'r 110 o elusennau oedd yn cynnig gwefan, roedd llai na hanner[11] yn defnyddio'r FfGG i gyfeirio ati.

Is-gwmnïau

Mae'r FfGG yn ceisio cynnwys gwybodaeth ar holl weithgareddau elusen, gan gynnwys unrhyw weithgareddau y gall ymgymryd â nhw trwy is-gwmnïau elusennol a/neu fasnachu[12]. Gwelwyd y byddai'r wybodaeth ar y FfGG wedi elwa - er lles tryloywder - o gyfeiriadau mwy penodol at weithgareddau gan is-gwmnïau. Roedd is-gwmni masnachu gan 47 o elusennau yn ein sampl, ond dim ond ambell i gyfeiriad at is-gwmnïau masnachu oedd i'w gweld yn eu hymatebion.

Arwyddo

Roedd yn ymddangos bod peth ddryswch ynghylch y gair *Teitl* yn y datganiad ar ddiwedd y ffurflen: roedd y rhan fwyaf o elusennau wedi ateb gyda 'Mr', Ms' ac ati, tra bo rhai elusennau wedi nodi 'Cadeirydd', 'Trysorydd Mygedol' ac ati. Byddwn yn gwneud y FfGG yn gliriach yn hyn o beth.

9. Mae modd cyrchu cyfeirlyfr A - Y o Ffurflenni Gwybodaeth Gryno wedi'u cwblhau ar ein gwefan: http://www.charitycommission.gov.uk/registeredcharities/SIRList.asp. Mae clicio ar gofnod elusen unigol hefyd yn cynnig modd i chi gyrchu gwybodaeth arall (fel amcanion cyfreithiol, cyfeiriad a chyfeiriad gwefan elusen) am yr elusen honno. Dim ond elusennau gydag incwm blynyddol gros o fwy na £1 miliwn sy'n rhaid cwblhau a chyflwyno FfGG, a chyhoeddwn wybodaeth am yr holl elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Derbyniodd wefan y Comisiwn 29 miliwn o ymweliadau yn y flwyddyn ariannol 2005/06.
10. Leukaemia Research Fund, 216032.
11. 54 elusen; o'r rhain, cyfeiriodd 49 elusen at gyfeiriad gwefan a soniodd pum elusen arall am wefan yr elusen heb roi'r cyfeiriad gwefan.
12. Cyfeiriwch at *Atodiad A* am fwy o fanylion ar gwmpas y FfGG.

3. Cwestiynau ac ymatebion

Fe welwch y casgliadau o'n dadansoddiad ansoddol o'r 130 o ffurflenni yn ein sampl isod, cwestiwn wrth gwestiwn. I helpu'r rheiny sy'n defnyddio'r adroddiad wrth gwblhau'r FfGG, rydym wedi cynnwys y darn perthnasol o'r *Nodiadau Canllaw*.

Trwy ddefnyddio enghreifftiau go iawn, rydym yn ceisio dangos y gwahanol ffyrdd y mae elusennau wedi ymateb i gwestiynau ar y FfGG, yn hytrach na chymharu a graddio eu hatebion.

Mae'r holl enghreifftiau wedi'u dyfynnu fel y cawsant eu hysgrifennu gan yr elusennau eu hunain ar eu FfGG, heblaw am gywiro mân wallau teipograffyddol.

Nodau'r elusen

Cwestiwn 1): Beth yw nodau eich elusen?

Mae ein *Nodiadau Canllaw ar gyfer y Ffurflen Gwybodaeth Gryno* yn datgan:

Dylech esbonio'n gryno yr hyn y mae'ch elusen yn bwriadu ei gyflawni, neu'r gwahaniaeth y mae'n ceisio ei wneud. Dylai'r datganiad ddarparu dealltwriaeth o bwrpas gweithgareddau eich elusen ac, ar lefel uchel iawn, cyfeiriad sylfaenol gwaith eich elusen. Fel arfer ni fyddai'r datganiad hwn yr un fath ag amcanion cyfreithiol yr elusen (sydd eisoes wedi'u datgan ar wefan y Comisiwn).

Roedd elusennau wedi ateb y cwestiwn hwn mewn gwahanol ffyrdd.

Roedd 36 o'r 130 o elusennau wedi seilio eu hymateb i Gwestiwn 1 ar eu hamcanion cyfreithiol, gan ddyfynnu eu hamcanion yn llawn neu'n rhannol. Aeth 20 o'r elusennau hyn ymlaen i esbonio beth oedd hyn yn ei olygu yn ymarferol ar gyfer eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Yn yr enghraifft ganlynol, mae'r elusen wedi dyfynnu ei hamcanion cyfreithiol cyffredinol iawn:

> *'"Dibenion elusennol o'r fath ym Mwrdeistref Wigan fel y penderfyna'r Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd" (memorandwm cymdeithasu)'*

ac yna maent wedi'u troi'n enghreifftiau ymarferol o'i gwaith cyfredol:

> *'Rôl Cyfredol: Darparu a chynnal canolfannau cymunedol*
> *Rhoi grantiau i ganolfannau a sefydliadau cymunedol'*[13]

Roedd rhai elusennau wedi rhoi ymatebion uchel iawn neu fath o genhadaeth fel ateb i Gwestiwn 1, er enghraifft:

> *'Mae Community Action Hampshire yn gweithio i gryfhau a hybu gweithredu gwirfoddol a chymunedol, a sicrhau cymuned deg ac amrywiol.'*[14]

Mae'r canlynol yn rhoi ymateb arall lefel uchel, sy'n fath o genhadaeth:

> *'Mae'r Grace Eyre Foundation yn cynorthwyo pobl ag anableddau dysgu i fyw bywydau gwerthfawr yn y gymuned.'*[15]

13. Douglas Valley Community Limited, 1069483.
14. Community Action Hampshire, 1053806.
15. The Grace Eyre Foundation, 1020192.

Roedd rhai elusennau wedi rhoi rhyw syniad o'r hyn y dymunant ei gyflawni a sut y ceisiant gyflawni hyn, drwy roi gwybodaeth am eu gwaith ymarferol a datgan eu nodau. Defnyddiwyd ffeithiau, gyda neu heb ffigurau, er enghraifft i roi graddfa gweithgareddau'r elusen mewn cyd-destun:

'Darparu Parc er budd trigolion Peterborough ac ymwelwyr i'r ddinas. Mae Nene Park yn cwmpasu 1026 ha (2535 erw) ac mae'r Ymddiriedolaeth yn berchen ar 700ha (1730 erw) ohono. Mae tua 276 hectar (682 erw) o ddolydd, coedwigoedd a llynnoedd yn cael eu defnyddio ar gyfer adloniant anffurfiol, defnyddir traean arall ar gyfer chwaraeon ffurfiol a gweithgareddau fel golff, rhwyfo a hwylio ac mae'r gweddill yn gefn gwlad agored ac fe'i defnyddir ar gyfer amaethyddiaeth gyda rhwydwaith o lwybrau troed a llwybrau ceffyl.'[16]

Ac yn yr un modd ar gyfer elusen gyda nodau amryfal:

'Nod: mae Oxfam yn gweithio gydag eraill i leddfu tlodi a dioddefaint.

Mae Oxfam yn gweithio mewn tair prif ffordd, ac yn gwneud y cysylltiadau rhyngddynt:

- *ymateb dyngarol; yn cael ei gynnig gan Oxfam ei hun yn bennaf.*
- *gwaith datblygu yn y gymuned; trwy gyllido a chynorthwyo sefydliadau partner yn y wlad yn bennaf.*
- *ymgyrchu i sicrhau newid mewn polisi ac ymarfer er budd y tlawd.*

Seilir ein gwaith ar hawliau ac mae pump prif nod cyffredinol i'n rhaglenni sy'n ceisio sicrhau:

- *Hawl i fywoliaeth gynaliadwy;*
- *Hawl i wasanaethau cymdeithasol sylfaenol;*
- *Hawl i fywyd a diogelwch;*
- *Hawl i gael eich clywed;*
- *Hawl i gydraddoldeb: rhyw ac amrywiaeth.*

Gweithiwn mewn mwy na saith deg o wledydd gyda rhaglenni a reolir trwy naw ardal ddaearyddol y byd e.e. De Affrica, De Asia.'[17]

16 Nene Park Trust, 800067.
17 Oxfam, 202918.

Pwy sy'n elwa
Cwestiwn 2a): pwy sy'n elwa o waith yr elusen?

Mae ein *Nodiadau Canllaw ar gyfer y Ffurflen Gwybodaeth Gryno* yn datgan:

I elusennau sy'n rhoi grantiau, dylai'r manylion a ddarperir mewn ymateb i'r cwestiynau esbonio'r categorïau neu'r grwpiau o fuddiolwyr y rhoddir grantiau iddynt. Pan fydd polisïau rhoi grantiau yn canolbwyntio ar gefnogi mathau arbennig o weithgareddau, unwaith eto dylid esbonio hyn.

Dylech esbonio neu restru'r grwpiau o bobl, cymunedau neu sefydliadau y mae'ch elusen yn gweithio i'w cynorthwyo. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw bobl neu sefydliadau sy'n elwa o wasanaethau neu gyfleusterau'r elusen, naill ai wedi'u darparu gan yr elusen yn wirfoddol neu fel gwasanaeth cytundebol, efallai ar ran corff fel awdurdod lleol.

Ymatebodd elusennau i'r cwestiwn hwn gyda lefelau amrywiol o fanylion.

Rhoddodd rai elusennau ymatebion byr, fel *'Pobl anabl'*[18] neu *'Y cyhoedd'*[19].

Roedd elusennau eraill wedi datblygu eu hymateb, er enghraifft trwy ddarparu manylion am grwpiau targed o fewn 'y cyhoedd':

> ***'Y cyhoedd, a grwpiau targed megis pobl 60 oed a hyn, myfyrwyr, plant dan 5 oed, pobl wedi'u cyfeirio gan eu Meddyg Teulu, a phobl ar fudd-dal incwm.'***[20]

Mae'r enghraifft ganlynol yn dangos sut mae un rhoddwr grantiau wedi esbonio pwy sy'n derbyn ei grantiau:

> ***'Unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r diwydiant bwyd ac mae angen cymorth arnynt. Rhaid dangos graddfa o galedi ariannol a rhaid dangos tystiolaeth o 15 [mlynedd] o wasanaeth o leiaf o fewn y diwydiant.'***[21]

Dangosodd elusennau o'r un math amrywiaeth o ymagweddau. Cafwyd yr ymatebion canlynol gan ddau Gyngor Gwasanaeth Gwirfoddol:

> ***'Gall pob grŵp gwirfoddol a chymunedol ac unigolyn sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot elwa o waith yr Elusen'***[22]

Ac:

> ***'Mae Walsall Voluntary Action yn ceisio cynghori darparwyr gwasanaeth lleol ynghylch sut i weithio gyda a thrwy'r sector gwirfoddol a chymunedol. Y nod yw galluogi unigolion, cymunedau a grwpiau i gael mynediad gwell i wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau'r Awdurdod Lleol.***

Community Chest *Community Learning Chest* *Fast Track*	*127 grŵp*
Black Country Women's Development Fund	*48 grŵp*
Constitution Surgery *Funding Club* *Development Surgery*	*75 grŵp*
Financial Assistance	*4 grŵp*
Payroll	*18 grŵp*
Grant Forwarding	*1 grŵp*

18. Er enghraifft: The Papworth Trust, 211234.
19. Er enghraifft: Sir John Soane's Museum, 313609.
20. Basingstoke & District Sports Trust Limited, 301731.
21. National Grocers Benevolent Fund, 1095897.
22. Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot Cyf, 1064450.

Cymorth rheoli i:

Walsall Volunteer Bureau

Walsall Community Empowerment Network

The Black Country Women's Development Network'[23]

Roedd un elusen Age Concern wedi defnyddio ei hymateb i'r cwestiwn hwn i ddangos pwy yr oedd yn ei gyrraedd trwy ddadansoddi ei ddosbarth o fudd:

'Pobl hŷn sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Yn gyffredinol, roedd 50% o'r 20,000 o bobl a gafodd eu cynorthwyo gan yr Elusen yn 75 oed neu'n hŷn; roedd 1,200 yn hŷn nag 85 oed. O'r cyfanswm a gofnodwyd - roedd 4,700 o bobl wedi cofnodi bod anableddau lluosog ganddynt. Mae'r Elusen yn cynnig 17 man cyswllt / gwybodaeth lleol trwy Gaerdydd a Bro Morgannwg i gael mynediad lleol i Gronfa Ddata Gwybodaeth yr Elusen a Gwasanaeth Taflenni Ffeithiau.'[24]

Roedd Age Concern arall wedi disgrifio ei ddosbarth o fudd yn fwy cryno fel:

'Pobl hŷn sy'n byw yn Ninas Newcastle upon Tyne.'[25]

Cwestiwn 2b): Sut ydych chi'n ymateb i'w hanghenion a sut ydyn nhw'n dylanwadu ar ddatblygiadau'r elusen?

Mae ein *Nodiadau Canllaw ar gyfer y Ffurflen Gwybodaeth Gryno* yn datgan:

Mae elusennau'n bodoli i wasanaethu eu buddiolwyr (cyfredol a phosib), neu ddefnyddwyr gwasanaeth, a darparu gwasanaethau sy'n bodloni eu hanghenion mor gyflawn â phosib. Mae elusennau a weinyddir yn dda yn ceisio gwella eu gwasanaethau yn gyson mewn ffyrdd sy'n cael effaith uniongyrchol, gadarnhaol ar fywydau defnyddwyr, gan ystyried amrywiaeth o syniadau a dulliau i gyflawni hyn. Mae buddiolwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn rhanddeiliaid allweddol.

Dylech esbonio'n fyr sut mae'ch elusen yn ceisio barn ei buddiolwyr neu ddefnyddwyr, yn cyfathrebu â'r grwpiau hyn a sut mae eu barn yn cael ei sianelu i brosesau gwneud penderfyniadau eich elusen.

Mae'r cwestiwn hwn yn gymwys i bob elusen os ydynt yn darparu gwasanaethau neu beidio, er enghraifft, byddai'n rhaid i elusen sy'n rhoi grantiau esbonio sut y mae'n ystyried anghenion ei cheiswyr grantiau a'i deiliaid grantiau.

Yn gyffredinol, roedd elusennau wedi darparu dau fath o wybodaeth mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Disgrifiodd rhai rhoddwyr grantiau sut y maent yn ymateb i fuddiolwyr unigol trwy esbonio sut y maent yn ystyried eu hanghenion, fel yr awgrymir yn y Nodiadau Canllaw:

'Bydd ymddiriedolwyr yn ystyried ceisiadau am gymorth, ac yn ystyried anghenion y plant, y ceisiadau gan Rieni a Gwarcheidwaid a barn a chyngor pobl broffesiynol sy'n ymwneud â phlant.'[26]

23. Walsall C.V.S., 1074659.
24. Age Concern Caerdydd a Bro Morgannwg, 260189.
25. Age Concern Newcastle upon Tyne, 1041000.
26. The Royal Navy and Royal Marines Children's Fund, 1075015.

Ond roedd sawl elusen, nid yn unig rhoddwyr grantiau, wedi rhoi manylion am yr hyn a wnânt o ddydd i ddydd i fuddiolwyr unigol, er enghraifft trwy gynllun gofal wedi'i deilwra, yn ogystal â disgrifio'r gwasanaethau a gynigiant.

'Trwy barhau i ddarparu gwasanaeth sy'n cwmpasu'r holl ddatblygiadau cyfredol o fewn gofal lliniarol, ac sy'n bodloni meini prawf canllawiau'r llywodraeth.'[27]

Roedd yr ail fath o wybodaeth yr oedd rhai elusennau wedi'i rhoi, ochr yn ochr â manylion ynghylch sut y darparant wasanaeth uniongyrchol ar gyfer eu buddiolwyr yn aml, yn ymwneud â oedd sut yr oeddent yn ymgynghori â buddiolwyr ac yn ceisio eu barn. Gellid gwneud hyn trwy ddulliau megis holiaduron blynyddol, arolygon barn a chynadleddau defnyddwyr, neu drwy, er enghraifft cynnwys buddiolwyr ar lefel bwrdd (fel ymddiriedolwyr-defnyddwyr):

'...Ymgynghorir â phreswylwyr trwy gyfarfodydd, sesiynau cymorth unigol, taflenni newyddion, arolygon bodlonrwydd, CCC, a hefyd y prosesau ymgynghori arferol.'[28]

Roedd rhai elusennau hefyd wedi esbonio *sut* yr oedd y barnau hyn yn bwydo i mewn i'w prosesau gwneud penderfyniadau; er enghraifft, sut mae adborth gan fuddiolwyr yn llywio'r cylchred cynllunio busnes blynyddol:

'Ceisir adborth gan ddefnyddwyr yn gyson ar gyfer gweithgareddau fel hyfforddiant a gwasanaethau rheng flaen eraill trwy broses werthuso strwythuredig. Tua bob tair blynedd cynhaliwn ymgynghoriad ar draws y sefydliad gyda'n defnyddwyr i bennu lefel bodlonrwydd â'n gwasanaethau a cheisio awgrymiadau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol. Mae'r rhain yn bwydo i mewn i'n proses cynllunio busnes blynyddol. Hefyd, mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cynnwys cynrychiolwyr grwpiau defnyddwyr'[29]

Fodd bynnag, pan oedd elusennau yn rhoi gwybodaeth ynghylch sut yr oeddent yn ceisio adborth gan fuddiolwyr, nid oeddent yn esbonio'n aml sut yr oeddent yn defnyddio'r adborth hwn yn y broses gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, soniodd rhai elusennau eu bod yn cynnal arolygon heb nodi sut y byddent yn defnyddio'r canlyniadau:

'Mae defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynrychioli ar y Cyngor Rheoli.

Cyflogwn Hyrwyddwr Defnyddwyr Gwasanaeth.

Defnyddir holiaduron, cyfweliadau unigol ac asesiadau cleientiaid yn gyson.'[30]

27. The Rotherham Hospice Trust, 700356.
28. Cymdeithas Dai YMCA Caerdydd , 1015485 – darn o'r ymateb i Gwestiwn 2b.
29. Voluntary Action Sheffield, 223007.
30. Strode Park Foundation for Disabled People, 227794.

Strategaeth yr elusen

Cwestiwn 3a): Beth yw elfennau allweddol strategaeth yr elusen yn y tymor canolig i'r tymor hir?

Mae ein *Nodiadau Canllaw ar gyfer y Ffurflen Gwybodaeth Gryno* yn datgan:

Pwrpas y cwestiwn hwn yw cynnig modd i'ch elusen esbonio sut y mae'n bwriadu cyflawni ei hamcanion pwysicaf yn y tymor canolig i'r tymor hir. Dylai'r esboniadau:

- ddarparu dealltwriaeth o'r strategaeth ar gyfer cyflawni eich amcanion allweddol
- darparu dealltwriaeth o sut y bydd yr amcanion allweddol hyn yn hyrwyddo nod eich elusen;
- ymwneud yn bennaf â gweithgareddau elusennol eich elusen.

Roedd elusennau wedi ateb y cwestiwn hwn mewn gwahanol ffyrdd:

- Trwy ymateb gyda datganiad sy'n fath o genhadaeth:

  'Nod yr Elusen yw cynnig yr addysg y gall ei darparu i drawstoriad mor eang â phosib o'r gymuned.'[31]

- Trwy roi rhai enghreifftiau ymarferol o'u nod yn y dyfodol:

  'Mae elfennau allweddol yn cynnwys:

  Sicrhau'r incwm mwyaf trwy gynnal meddiannaeth uchel a rheoli costau.

  Cynnal safonau uchel trwy system sicrhau ansawdd.

  Recriwtio, hyfforddi a chadw staff o safon uchel.

  Datblygu systemau rheoli risg ar draws y sefydliad a hybu diwylliant rheoli risg ymhellach.

  Cynnal ac ailaddurno eiddo Aurora er mwyn ei gwneud hi'n haws i'w gwerthu.'[32]

- Neu drwy ddisgrifio un neu fwy o nodau, ar ffurf datganiad sy'n fath o genhadaeth gydag enghreifftiau ymarferol o sut i gyflawni'r nodau:

  '....Darparu gwasanaethau o ansawdd uchel a phroffesiynol i'n hysgolion a'n defnyddwyr, er enghraifft, darparu hyfforddiant priodol i arweinwyr ysgolion a thrwy gynorthwyo wrth recriwtio athrawon sydd newydd gymhwyso...'[33]

Mae'r *Nodiadau Canllaw* yn diffinio[34] strategaeth tymor canolig i dymor hir fel strategaeth sy'n cwmpasu tair i bum mlynedd neu fwy. Nid yw bob amser yn glir ai dyma'r cyfnod yr oedd elusennau yn ysgrifennu amdano yn eu hymatebion, pa bynnag ymagwedd oedd yn cael ei mabwysiadu.

31. Hulme Grammar Schools, 526636.
32. Aurora Charity, 299935.
33. The London Diocesan Board for Schools, 313000 - darn o'r ymateb i Gwestiwn 3a.
34. Dan '*Strategaeth*' yn y *Rhestr Termau* i'r *Nodiadau Canllaw* (i'w weld yn *Atodiad C*).

Cwestiwn 3b): Sut mae'r elusen yn mesur llwyddiant y strategaeth?

Mae ein *Nodiadau Canllaw ar gyfer y Ffurflen Gwybodaeth Gryno* yn datgan:

Dylech esbonio'n fyr y technegau a ddefnyddir gan eich elusen i asesu a yw'n cyflawni effeithiolrwydd ehangach, mwy tymor hir ei strategaeth. Ar gyfer elusennau rhoi grantiau mae hyn yn gymwys i'w hasesiad o'u strategaethau eu hunain yn hytrach nag asesiad o'r rheiny sy'n derbyn grantiau.

Roedd rhai elusennau wedi rhoi enghreifftiau ymarferol o rai o'r technegau mesur a ddefnyddir:

'1. Archwilio blynyddol proffesiynol gan y Comisiwn Gofal Iechyd ac archwilwyr allanol.
2. Adolygiad cyfoedion meddygol a nyrsio.
3. Adborth gan y gymuned ac arolygon cleifion.
4. Comisiynwyr GIG lleol sy'n cyfrannu tua £1.0m y flwyddyn tuag at ein costau.'[35]

Weithiau roedd elusennau'n cysylltu eu hatebion yn uniongyrchol i Gwestiynau 3a a 3b, gan nodi'r mesur a ddefnyddiant i asesu a ydynt wedi cyrraedd pob nod:

Ymateb i Gwestiwn 3a

'Gwneud bodlonrwydd preswylwyr yn fesur allweddol o'n heffeithiolrwydd.

Parhau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau gwirfoddol a statudol eraill er budd trigolion lleol a'r ardal leol.

Codi arian allanol ar gyfer gweithgareddau datblygiad cymunedol.

Sicrhau bod ein buddsoddiad yn y stoc tai a'r amgylchedd ffisegol yn cael ei gynnal a'i ddiogelu.'

Ymateb i Gwestiwn 3b

'Lefelau bodlonrwydd preswylwyr a gyflawnwyd fel yr adlewyrchir mewn arolygon.[36]

Nifer y prosiectau neu weithgareddau a weithredir ar y cyd.

Swm yr arian a godir.

Cyflwr y stoc a'r amgylchedd fel yr adlewyrchir mewn arolygon'[36]

Enghraifft arall oedd:

Ymateb i Gwestiwn 3a

'Kings Church Sefydlu tîm rheoli ail genhedlaeth, yn dilyn ymddeoliad yr arweinydd a fu yn y swydd am 17 o flynyddoedd.

Cynyddu aelodaeth o'r eglwys ac yn arbennig trwy ei gwneud yn hygyrch ac yn ddeniadol i bawb.

Bod yn bresenoldeb yn y gymuned, gweithio gydag asiantaethau eraill a sicrhau bod Kings Centre ar gael i'r gymuned ei ddefnyddio...'

Ymateb i Gwestiwn 3b

'Kings Church Bydd llwyddiant newid y tîm rheoli yn cael ei fesur trwy dwf ar draws y sbectrwm cyfan o weithgareddau'r elusen.

Bydd twf yr eglwys yn cael ei fesur trwy'r nifer sy'n bresennol, aelodaeth a chymorth ariannol.

Bydd presenoldeb yn y gymuned yn cael ei fesur trwy nifer o weithgareddau ar y cyd gyda sefydliadau lleol, fel ysgolion, colegau a chynghorwyr lleol, wedi'i gyfuno â'r sylw a gaiff digwyddiadau yn y wasg leol...'[37]

35. Hospiscare, 297798.
36. Fortunegate Community Housing, 1068484.
37. The Frontiers Charitable Trust, 1065086 – darn o'r ymatebion i Gwestiynau 3a a 3b.

Yn aml roedd ymatebion eraill i Gwestiwn 3b yn rhoi disgrifiad cyffredinol am y prosesau cynllunio strategol a gwerthuso, fel defnyddio is-bwyllgor i adolygu cynnydd, system o ddangosyddion perfformiad allweddol i asesu'r cynnydd sy'n cael ei wneud ac adolygiadau achlysurol:

'Mae cynllun darparu gwasanaeth yn cael ei baratoi bob blwyddyn am y 12 mis nesaf ac mae adroddiad perfformiad ansawdd yn cael ei gyflwyno i'r bwrdd.'[38]

Ac:

'Trwy'r ymatebion i'n systemau gwerthuso a'r adborth gan y rhai sy'n prynu ein gwasanaeth'[39]

Amcanion a chyraeddiadau

Cwestiwn 4)[40]: Beth oedd prif amcanion blynyddol yr elusen ac a chawsant eu cyflawni?

Mae ein *Nodiadau Canllaw ar gyfer y Ffurflen Gwybodaeth Gryno* yn datgan:

Ar gyfer elusennau sy'n rhoi grantiau, mae'r wybodaeth sy'n ofynnol i ateb y cwestiynau hyn yn ymwneud ag amcanion a gweithgareddau'r rhoddwr grantiau ei hun ac nid y rhai sy'n derbyn grantiau.

Pwrpas y cwestiwn hwn yn gyntaf yw cynnig modd i'ch elusen amlinellu ei hamcanion tymor byr ar gyfer y flwyddyn. Dylai'r amcanion hyn ddarparu dealltwriaeth o sut yr oeddech yn bwriadu gweithredu ar strategaeth eich elusen yn ystod y flwyddyn. Dylech esbonio eich amcanion a'u cysylltu â deilliannau allanol yn hytrach na rheolaeth fewnol. Dylai'ch esboniad gynnig modd i'r darllenydd asesu sut y byddai'r amcanion blynyddol yn helpu'ch elusen i gyflawni ei nod a'i strategaeth gyffredinol.

Yn ail ran y cwestiwn, dylech roi manylion am y cyrhaeddiad, o ran y mesurau neu'r dangosyddion a ddefnyddir gan yr elusen i asesu perfformiad yn erbyn ei hamcanion blynyddol. Os yw'n gymwys, mae'n bosib yr hoffech esbonio'r rhesymau pam nad oedd targed wedi cael ei gyflawni. Gall y mesurau fod yn feintiol neu'n ansoddol, neu'n gymysgedd o'r ddau.

Dangosodd ein casgliadau fod rhaid darllen y ddwy ran i Gwestiwn 4, *Amcan* a *Chyrhaeddiad*, gyda'i gilydd: roedd rhai elusennau wedi rhoi llawer o fanylion ar gyfer *Amcan* ond llai dan *Gyrhaeddiad*, neu i'r gwrthwyneb.

Er enghraifft, mae elusen wedi rhoi'r ymateb canlynol ar gyfer *Amcan*:

'Ymrwymiad i gwsmeriaid'

Yna mae'r un elusen yn esbonio'r amcan lefel uchel hwn yn ei hymateb dan *Gyrhaeddiad*:

'Mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Boston, lansiwyd cynllun (dilysu Budd-dal Tai) a oedd yn ceisio helpu ein tenantiaid i ddatrys y rhwystrau anodd a wynebant wrth dderbyn Budd-daliadau Tai.'[41]

38. Norcare Limited, 515150.
39. Cartref Ni Cyfyngedig, 1071424.
40. Er y cyfeirir ato fel '4a)' yn y *Nodiadau Canllaw*, nid oes unrhyw Gwestiwn 4b) dilynol. Byddwn yn cywiro hyn fel rhan o'n hadolygiad o'r *Nodiadau Canllaw*.
41. Boston Mayflower Limited, 1078179 – darn o'r ymateb i Gwestiwn 4.

Yn yr un modd:

Amcan:

'Cynnal ymgyrchoedd i ddylanwadu ar bolisi ac agweddau cyhoeddus'

Cyrhaeddiad:

'Wedi cynnal nifer o ymgyrchoedd llwyddiannus gan gynnwys y rhai ar y Mesur Gwahaniaethu ar sail Anabledd a thai hygyrch a chyfathrebu gwell gyda deddfwyr trwy Ddiwrnod Deialog AS'[42]

Roedd rhai elusennau wedi darparu ymatebion eithaf lefel uchel ar gyfer *Amcan*, gyda 'ie' neu 'wedi'i gyflawni' dan *Gyrhaeddiad, e.e. 'Codi digon o arian'* a *'Wedi'i gyflawni'*[43]; neu *'Cael eu cydnabod a bod yn llais i'r holl ddarparwyr yn y sector ar lefel leol a chenedlaethol'* ac *'Wedi'i gyflawni'*[44].

Roedd sawl elusen wedi defnyddio ffigurau neu fesurau ansoddol (neu'r ddau) i esbonio eu hateb:

Amcan:

'Darparu cymorth a chefnogaeth trwy ein llinell gymorth i fwy na 2,000 o alwyr'

Cyrhaeddiad:

'Cymorth a chefnogaeth wedi'u darparu i fwy na 5,000 o alwyr'[45]

Ac:

Amcan:

'Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel'

Cyrhaeddiad:

' - ISO 9001:2000 wedi'i gadw

- Ymweliad arolygu statudol llwyddiannus

- Arolygon cadarnhaol/lefel isel o gwynion'[46]

Yn ogystal ag adrodd am eu llwyddiannau, roedd sawl elusen wedi cynnwys nod nad oeddent wedi'i gyflawni, ac esbonio pam:

Amcan:

'Datblygu gwasanaethau ataliol sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl cadarnhaol ac sy'n targedu'r rhai na fyddai'n defnyddio gwasanaethau Brent Mind yn draddodiadol.'

Cyrhaeddiad:

'Ni ddatblygwyd gwasanaeth ataliol oherwydd nid oedd Brent Mind wedi cyrraedd ei darged codi arian'[47]

Mae'r *Nodiadau Canllaw* yn datgan y dylai elusennau esbonio eu *'hamanion a'u cysylltu â deilliannau allanol yn hytrach na rheolaeth fewnol'*.

Fodd bynnag, gall gosod amcanion neu nodau mewnol yn ymwneud â chodi arian neu lywodraethu fod yn ffordd o gyflawni nodau'r elusen hefyd:

Amcan:

'Sicrhau bod gwasanaethau Iasa ar gael i bawb a'n bod yn cyflawni ein gwaith mewn modd cyfartal sy'n adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas'

Cyrhaeddiad:

'Adolygu holl bolisïau Iasa er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag arferion ac egwyddorion Cyfle Cyfartal'[48]

Ac:

Amcan:

'Recriwtio'r holl staff amlddisgyblaethol ar gyfer yr uned newydd'

Cyrhaeddiad:

'Pymtheg staff nyrsio WTE, pedwar swyddog meddygol a staff ategol eraill i gyd wedi'u recriwtio erbyn diwedd y flwyddyn.'[49]

Mae nodau mewnol yn aml yn ymwneud â gwella'r sefydliad mewn rhyw ffordd, er enghraifft recriwtio a hyfforddi staff gwell; felly fel arfer maent yn ffordd o ddarparu gwasanaethau o ansawdd gwell, a all fod o ddiddordeb i ddarllenwyr cyffredin. Weithiau, gall nodau mewnol fod yn hunanesboniadol (fel gwella hyfforddiant i staff); ond nid ydynt felly ar adegau eraill (fel nodi targed codi arian ond heb ddatgan sut y defnyddir yr arian). Byddwn yn newid ein *Nodiadau Canllaw* yn unol â hynny.

42. The Royal Association for Disability and Rehabilitation, 273150 – darn o'r ymateb i Gwestiwn 4.
43. The Rotherham Hospice Trust, 700356 – darn o'r ymateb i Gwestiwn 4.
44. The Association for Real Change, 285575 – darn o'r ymateb i Gwestiwn 4.
45. The Scottish Hospital of the Foundation of King Charles the Second (Royal Scottish Corporation – seiliedig yn Llundain), 207326 – darn o'r ymateb i Gwestiwn 4.
46. Care Partners Trust, 1080820 – darn o'r ymateb i Gwestiwn 4.
47. Brent Mind (Association for Mental Health), 1011435 – darn o'r ymateb i Gwestiwn 4.
48. London Advice Services Alliance Company Limited, 800140 – darn o'r ymateb i Gwestiwn 4.
49. North Devon Hospice, 286554 – darn o'r ymateb i Gwestiwn 4.

Incwm a gwariant

Cwestiwn 5a): Beth oedd ffynonellau incwm yr elusen yn ystod y flwyddyn?

Roedd ein *Nodiadau Canllaw ar gyfer y Ffurflen Gwybodaeth Gryno* yn cynnwys y canlynol[50]:

Dylai'r dadansoddiad incwm sy'n ofynnol ddeillio o'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r diffiniadau o'r mathau o incwm sydd i'w cynnwys ym mhob un o'r penawdau safonol wedi'u nodi yn y Rhestr Termau a dylent gyfateb â'r rheiny a ddefnyddir yn SORP 2005 diwygiedig...

Ymatebodd pob un o'r 130 o elusennau i Gwestiwn 5 ar incwm a gwariant a nodwyd sawl mater cyffredin ynghylch sut yr oeddent wedi cwblhau'r cwestiynau:

- Nid oedd yn hawdd cysoni'r ffigurau â'r rheiny yng nghyfrifon yr elusen a/neu Rannau A a B y Ffurflen Flynyddol bob amser.
- Nid oedd elusennau bob amser yn sylweddoli y dylai'r atebion yn yr adran hon gael eu mynegi mewn miloedd o bunnoedd.
- Prin oedd yr elusennau oedd wedi defnyddio'r blychau nodiadau esboniadol.

O ran Cwestiwn 5a yn benodol, mae'r cwestiwn yn gofyn am ddadansoddiad o gyfanswm yr adnoddau a dderbynnir, eto i gyd mae'r FfGG yn cyfeirio at ganrannau incwm gros[51] nad yw'n rhoi'r un ffigur bob tro. Byddwn yn dileu'r anghysondeb hwn yn y fersiwn nesaf.

Cwestiwn 5b): Beth oedd y gweithgareddau mwyaf arwyddocaol yn ystod y flwyddyn, a faint oedd yr elusen wedi gwario arnynt?

Roedd ein *Nodiadau Canllaw ar gyfer y Ffurflen Gwybodaeth Gryno* yn cynnwys y canlynol:

Dylech roi manylion byr am y gweithgareddau elusennol hynny a wnaeth y cyfraniad mwyaf arwyddocaol at yr amcanion blynyddol rydych wedi'u rhestru yng Nghwestiwn 4. Gallai gwybodaeth a ddarperir yma gynnwys manylion am y gwasanaethau a ddarparwyd gan eich elusen, prosiectau neu raglenni o bwys yr oedd eich elusen wedi ymgymryd â nhw / yn ymgymryd â nhw, neu'r math o grantiau a gafodd eu rhoi. Dylai'r manylion a ddarperir fod yn ddigonol er mwyn rhoi dealltwriaeth resymol o'r gwaith y mae'ch elusen wedi ymgymryd ag ef yn ystod y flwyddyn...

Mae'r diffiniad o'r hyn a olygir wrth weithgaredd elusennol wedi'i nodi yn y Rhestr Termau ac yn cyfateb a'r hyn a ddefnyddir yn y SORP diwygiedig...

Dylech gynnwys manylion a chostau gweithgareddau elusennol a gyflawnwyd trwy unrhyw is-gwmni sydd wedi'u cynnwys yng nghyfrifon cyfunol eich elusen.

Efallai yr hoffech gynnig sylwadau, neu esbonio'r gweithgareddau a chostau elusennol rydych wedi'u darparu, er enghraifft os yw gweithgaredd yn isel o ran costau ond yn cael effaith fawr.

50. Sylwch, er mwyn cynildeb, dim ond darnau o'r *Nodiadau Canllaw* sydd wedi cael eu dyfynnu yma ar gyfer Cwestiynau 5a, 5b a 5c. Mae'r *Nodiadau Canllaw* llawn ar gael ar ein gwefan: http://www.charitycommission.gov.uk/investigations/sir2005notes.asp
51. Cyfeiriwch at y *Rhestr Termau* yn Atodiad C am ddiffiniad o *'incwm gros'* wedi'i gymryd o'r *Nodiadau Canllaw*.

Mewn sawl achos, roedd y wybodaeth yn cynnwys dadansoddiad ychwanegol o wariant, gan felly darparu mwy o wybodaeth am weithgareddau elusen.

Nid oedd y diffiniad o wariant elusennol wedi cael ei ddilyn yn gywir, bob tro, ac weithiau roedd llywodraethu a chostau codi arian wedi cael eu cynnwys o fewn y ffigurau gweithgareddau elusennol. Byddwn yn egluro'r cwestiwn fel rhan o'n hadolygiad yn 2007.

Mewn rhai achosion, roedd yn amlwg bod ymatebwyr wedi gludo gwybodaeth yn syth uniongyrchol o'u cyfrifon, er bod y cwestiwn yn gofyn am weithgareddau *mwyaf arwyddocaol* a chostau cysylltiedig yr elusen.

Cwestiwn 5c): Beth oedd tri phrif weithgaredd codi arian yr elusen yn ystod y flwyddyn, a faint oedd pob gweithgaredd wedi cynhyrchu a beth oedd y gost?

Roedd ein *Nodiadau Canllaw ar gyfer y Ffurflen Gwybodaeth Gryno* yn cynnwys y canlynol:

Mae gweithgareddau codi arian yma yn cynnwys incwm o bob gweithgaredd sy'n ceisio codi Incwm Gwirfoddol ac o Weithgareddau ar gyfer Cynhyrchu Cronfeydd (gweler y diffiniadau yn y Rhestr Termau). Mae'r diffiniadau hyn, a'r sail cyfrifyddu incwm a chostau, yn cyfateb â'r rheiny a ddefnyddir yn y SORP diwygiedig.

Pan fyddwch yn nodi prif weithgareddau codi arian eich elusen yn ystod y flwyddyn, dylech ddewis y gweithgareddau hynny yr ystyrir eu bod o'r pwysigrwydd strategol mwyaf i'ch elusen. Yn y rhan fwyaf o achosion byddant yn golygu'r gweithgareddau sydd wedi cynhyrchu'r incwm mwyaf ar gyfer eich elusen. Os yw'r eitemau hyn yn sylweddol mae'n debyg y bydd eich elusen wedi cynnwys y wybodaeth hon yn y nodiadau ar eu cyfrifon.

Wrth ateb y cwestiwn hwn, dylech gynnwys unrhyw weithgareddau codi arian sy'n cael eu cynnal trwy is-gwmnïau.

Nid oedd nifer o elusennau wedi ateb Cwestiwn 5c. Roedd y rheswm am hyn yn glir mewn rhai achosion, sef nid oedd yr elusen yn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau codi arian. Mewn achosion eraill, roedd elusennau wedi cyfeirio at weithgareddau codi arian yn yr ateb i Gwestiwn 5a neu yn eu cyfrifon, ond nid oeddent wedi cwblhau'r cwestiwn hwn.

Roedd sawl elusen wedi sôn am weithgareddau codi arian sy'n costio mwy i'w weinyddu na'r incwm a gynhyrchir. Roedd rhai elusennau wedi ei chael hi'n anodd dyrannu incwm a gwariant i weithgareddau codi arian unigol. Roedd elusennau eraill wedi adlewyrchu'n gywir yr incwm a chostau cysylltiedig gweithgareddau codi arian arbennig, ond yn y rhan fwyaf o achosion nid oeddent wedi esbonio pam yr oedd costau codi arian yn fwy nag incwm.

Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i elusennau nodi eu tri *prif* weithgaredd codi arian. Dangosodd ein hymchwil, mewn rhai achosion, bod y cyfrifon yn cyfeirio at weithgareddau codi arian mwy arwyddocaol nag y soniwyd amdanynt ar y FfGG.

Cyflwr ariannol yr elusen

Cwestiwn 6): Sut byddech chi'n disgrifio cyflwr ariannol eich elusen ar ddiwedd y cyfnod?

Mae ein *Nodiadau Canllaw ar gyfer y Ffurflen Gwybodaeth Gryno* yn datgan:

Mae cyflwr ariannol yr elusen ar ddiwedd pob blwyddyn yn cael effaith ar yr hyn y gall / y bydd yn ei wneud yn y dyfodol. Yn eich ateb i'r cwestiwn hwn, dylech dynnu sylw at wybodaeth allweddol sy'n ymwneud â chyflwr ariannol eich elusen ar ddiwedd y flwyddyn gan gynnwys, er enghraifft, lefel ei chronfeydd wrth gefn, ydy'r lefel honno yn foddhaol, pam mae'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu cadw ac unrhyw ymrwymiadau ariannol arwyddocaol a allai godi yn y dyfodol.

Roedd sawl elusen wedi rhoi atebion byr neu un gair, fel *'da'*[52], *'cryf'*[53] neu *'boddhaol'*[54].

Roedd elusennau eraill wedi rhoi mwy o ddisgrifiad:

'Mae cyflwr ariannol yr elusen yn dda gyda chyflwr arian parod cryf o £2.12m, cynnydd o £1.2m ers 2003/04, a gweddillion i'w cario ymlaen o £1.8m. Mae'r ffigur cronfa wrth gefn lleiaf wedi cael ei osod ar £700k sy'n adlewyrchu costau gweithredu tri mis.

Mae'r cronfeydd wrth gefn eraill yn cael eu cadw i alluogi'r sefydliad i fuddsoddi mewn datblygu rhaglenni. Mae'r buddsoddiad hwn yn angenrheidiol er mwyn galluogi'r sefydliad i ateb anghenion yr amgylchedd deinamig iawn sy'n symud yn gyflym y mae'n gweithredu ynddo.'[55]

Gan fod y *Nodiadau Canllaw* yn nodi cronfeydd wrth gefn fel enghraifft, o bosib, mae rhai elusennau wedi cyfeirio at eu sefyllfa cronfeydd wrth gefn yn unig heb helaethu ar hyn, ond nid dyma'r achos bob tro:

'Da. Cadarnhawyd hyn gan Asesiad Blynyddol y Gorfforaeth Dai yn Hydref 2004 a oedd wedi rhoi ei 'sêl bendith' i hyfywedd YMCA Brighton gan ddweud bod 'Cyflwr ariannol cryf gan y Gymdeithas ac mae'n cadw risgiau i'r lleiaf posib'.

Er hynny bydd ein hyfywedd yn dibynnu'n helaeth yn y blynyddoedd i ddod ar gontractau Cefnogi Pobl a gynigir gan yr awdurdod lleol.'[56]

Byddwn yn newid y *Nodiadau Canllaw* er mwyn sicrhau eu bod yn egluro nad lefel y cronfeydd wrth gefn yw unig ffocws y cwestiwn hwn.

Mae'r enghraifft ganlynol yn un o'r achosion prin lle mae elusen wedi gwneud cysylltiad uniongyrchol rhwng ei gweithgareddau elusennol yn y flwyddyn ariannol a'i chyflwr ariannol ar ddiwedd y flwyddyn:

'Mae'r ysgol wedi bod yn llawn trwy gydol y cyfnod ac mae'r galw am leoedd yn parhau i fod yn uchel er gwaethaf colli nifer fach ond cyson o fechgyn o flwyddyn chwech i ysgolion annibynnol uwch a'r sector gwladol. Roedd perfformiad ariannol cryf y flwyddyn dan sylw wedi cynnig modd i'r Llywodraethwyr barhau i ad-dalu benthyciadau'r Ysgol ar gyfradd well yn ogystal â gweithredu polisi o welliannau arfaethedig i gyfleusterau yn yr ysgol...'[57]

52. Er enghraifft: The Society of St Columban for Foreign Missions, 221594.
53. Er enghraifft: Boston Mayflower Limited, 1078179.
54. Er enghraifft: Cardiff Action for Single Homeless, 703074.
55. Youth Sport Trust, 1086915.
56. Brighton Y M C A, 800987.
57. York House School Trust Limited, 311076 – darn o'r ymateb i Gwestiwn 6.

Y flwyddyn nesaf[58]

Cwestiwn 7a): Sut bydd perfformiad cyffredinol y flwyddyn ddiwethaf yn effeithio ar strategaeth yr elusen yn y tymor canolig i'r tymor hir?

Mae ein *Nodiadau Canllaw ar gyfer y Ffurflen Gwybodaeth Gryno* yn datgan:

Gellir defnyddio asesiad eich elusen o'i gweithgareddau a deilliannau neu effaith ei gwaith yn ystod y flwyddyn i fwydo i mewn i'w phrosesau cynllunio, gan ddylanwadu ar gyfeiriad gweithgareddau yn y dyfodol. Dylech esbonio sut y defnyddir yr asesiad o ganlyniadau perfformiad eich elusen yn ystod y flwyddyn i addasu ei strategaeth yn y tymor canolig i'r tymor hir.

Ymatebodd rhai elusennau trwy esbonio sut yr oedd perfformiad y flwyddyn flaenorol wedi effeithio ar ei strategaeth yn y tymor canolig i'r tymor hir:

'Wedi cyflawni pob un o'n targedau allweddol y flwyddyn ddiwethaf gydag adborth cadarnhaol iawn gan ddefnyddwyr, rydym yn ceisio cynnal pob un o'n gwasanaethau cyfredol dros y tair blynedd nesaf, gyda datblygiadau mewn rhai ardaloedd, gan gynnwys mwy o weithio ar y cyd gyda'n partneriaid ar draws Swydd Gaerefrog. Fodd bynnag, mae peth ansicrwydd o hyd ynghylch ein gallu i adnewyddu contractau a chael hyd i ffynonellau cyllid newydd mewn rhai ardaloedd. Bydd mwy o bwyslais ar gynhyrchu incwm gan sefydliadau sy'n gallu fforddio talu (mwy), a pharhau i ddarparu gwasanaeth am ddim neu wasanaeth wedi'i gymorthdalu'n helaeth i grwpiau llai gyda llai o adnoddau.'[59]

Ac:

'Mae'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer cwblhau'r ymgyrch £Million Plus erbyn Tachwedd 2006, a chynnal lefel dda o roi grantiau yn y tymor canolig, ar ôl cwblhau'r ffrydiau grantiau mawr cyfredol Rhwydwaith Ewropeaidd a Lleol i Blant a Phobl Ifanc yn 2006. Hefyd mae wedi mynd peth ffordd tuag at ddarparu lefel cronfeydd gweithredu cynaliadwy, ond bydd rhaid gwneud mwy.'[60]

Roedd nifer o elusennau wedi canolbwyntio ar berfformiad ariannol y flwyddyn flaenorol ac nid oeddent wedi sôn am agweddau eraill ar eu perfformiad, gan gynnwys eu gweithgareddau elusennol, a sut y byddent yn effeithio ar strategaeth yn y dyfodol. Ond nid dyma'r achos bob tro.

'Roedd yr elusen wedi llwyddo i wella dibynadwyedd a chynyddu'r gofal a ddarperir gan ei gwasanaeth Marie Curie Nursing gan 13% ac mae hyn wedi golygu bod rhai cyrff GIG yn gofyn am wasanaethau pellach yn y dyfodol. Bydd hyn yn datblygu strategaeth yr elusen a bydd yn cynnig mwy o wasanaethau i gleifion yn eu cartrefi eu hunain.

Mae'r cymorth a gafwyd ar gyfer ein hymgyrch "Cefnogi'r Dewis i Farw Gartref" yn Lloegr yn golygu y byddwn yn estyn ein hymgyrch i wledydd eraill yn y DU ac yn parhau i weithio'n agos â gwleidyddion a'r GIG i ddatblygu mwy o ddewis i bobl ar ddiwedd eu bywyd ym mhob gwlad yn y DU.

Roedd ein rhaglen Cynnig Dewis yn Swydd Lincoln wedi mynd rhagddo'n dda a bwriadwn estyn y rhaglen gan sefydlu dau brosiect blaenllaw arall mewn ardaloedd eraill yn y DU a hefyd gofyn i'r llywodraeth ein cefnogi wrth ddatblygu prosiectau pellach mewn mannau eraill.

Bydd y cynnydd yn ein hadnoddau ymchwil gofal a gwyddonol yn golygu y gallwn ddatblygu ein cynlluniau er mwyn cynyddu ein gweithgareddau ymchwil a gwella'r gofal a'r rhagolygon i gleifion yn y dyfodol.'[61]

58. O'r enw '*Y flwyddyn nesaf*' yn y *Nodiadau Canllaw* ac ar y FfGG, ond gan gynnwys cwestiwn ar berfformiad y flwyddyn ddiwethaf. Byddwn yn egluro hyn fel rhan o'n hadolygiad yn 2007.
59. Voluntary Action Sheffield, 223007.
60. Berkshire Community Foundation, 294220.
61. Marie Curie Cancer Care, 207994.

Roedd elusennau hefyd wedi ateb y cwestiwn hwn mewn ffyrdd amrywiol eraill, gydag ymatebion yn cyfuno'r nodweddion y soniwyd amdanynt isod.

Roedd rhai elusennau wedi canolbwyntio ar ddweud wrth y darllenydd sut y byddai perfformiad y flwyddyn ddiwethaf yn effeithio ar berfformiad y flwyddyn nesaf, yn hytrach nag edrych ymhellach i'r dyfodol:[62]

> ***'Rydym yn ceisio gwella effeithiolrwydd ein gweithdrefnau rhoi grantiau yn gyson a'r partneriaethau gyda'n grantïon. Mae profiad yn ystod y flwyddyn wedi dangos yr angen i ddatblygu arfer gorau ym maes rhoi grantiau ar gyfer sefydliadau lleol ac rydym yn gweithredu ar y rhan bwysig hon o'n gwaith. Mae profiad wedi hefyd pwysleisio'r angen am berthynas agos â'n partneriaid allanol ac rydym yn neilltuo mwy o adnoddau i ddatblygu hyn yn y flwyddyn i ddod.'[63]***

Roedd sawl elusen wedi darparu datganiadau cyffredinol ar lefel uchel:

> ***'Mae'r elusen yn parhau i dyfu ac, felly, bod o ddiddordeb cynyddol i'r unigolion sy'n ymweld â'r Amgueddfa.'[64]***

Ac:

> ***'Mae perfformiad 2004-2005 wedi cyfrannu at fodloni ein strategaeth tymor canolig i dymor hir'[65]***

Ac:

> ***'Cafodd Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot flwyddyn lwyddiannus iawn'[66]***

Ar ôl nodi elfennau o'i strategaeth tymor canolig yn yr ateb i Gwestiwn 3a, mae'n bosib bod rhai elusennau wedi penderfynu canolbwyntio ar eu proses llunio strategaeth a sut mae asesu perfformiad yn bwydo i mewn iddo, yn hytrach nag ar yr hyn y mae'r strategaeth yn ei chynnwys:

> ***'Mae perfformiad cyffredinol ar gyfer 2004-5 a gafodd ei asesu trwy weithio ar y cyd rhwng y Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r Uwch Dîm Rheoli wedi gweld cynllunio gweithredol yn parhau ar gyfer y flwyddyn ganlynol a sefydlu cylchredau adolygu. Cynlluniwyd asesu strategaeth tymor canolig/hir ar gyfer y flwyddyn 2005-06 fel sail i gynllunio busnes dros y cyfnod canlynol o dair blynedd ac mae'r gwaith hwn ar y gweill. Mae asesu yn ystyried lefel cyraeddiadau'r flwyddyn ddiwethaf, cynnydd yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, ffrydiau cyllido sy'n cefnogi gwasanaethau cyfredol a chyfleoedd cyllid i gefnogi datblygu gwasanaethau cymunedol newydd mewn gwahanol rannau o'r wlad.'[67]***

Ymatebodd rhai elusennau trwy ddweud bod perfformiad y flwyddyn ddiwethaf yn unol â'r strategaeth (wedi'i nodi yn yr ateb i Gwestiwn 3a fel arfer):

> ***'Mae CMS yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r strategaeth tymor hir a bennwyd yn Strategaeth Genhadaeth 2001-11 ac mae'r perfformiad cyffredinol yn y flwyddyn 31 Ionawr 2005 yn cyfateb â hyn.'[68]***

Dywedodd rhai elusennau eu bod 'rhwng' strategaethau, neu fod y strategaeth gyfredol ar y gweill ar adeg ysgrifennu:

> ***'Fel y nodwyd mae'r strategaeth yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Rhan o'r adolygiad hwnnw yw Adroddiad ar ein perfformiad yn erbyn amcanion a thargedau a bennwyd ar gyfer y 3 blynedd flaenorol. Bydd y perfformiad hwn yn cael ei ystyried a'i adlewyrchu o fewn y strategaeth 3 blynedd newydd ar gyfer 2006-2007'[69]***

Dywedodd elusennau eraill bod angen iddynt ail-werthuso eu strategaeth gyfredol oherwydd rhyw agweddau ar berfformiad neu ddigwyddiadau a oedd wedi codi yn ystod y flwyddyn flaenorol.

> ***'Wrth i rai ffynonellau cyllid ddod i ben, a/neu gael eu cyfuno mewn meysydd eraill, er enghraifft Cytundebau Ardal Leol, bydd eglurdeb yn cael ei ddatblygu a fydd yn rhoi'r sefydliad mewn sefyllfa llawer gwell i allu rhoi barn ar ei sefyllfa yn y tymor canolig i'r tymor hir.'[70]***

62. Diffinnir 'tymor canolig' fel tair i bum mlynedd dan '*Strategaeth*' yn y *Rhestr Termau* i'r *Nodiadau Canllaw* (i'w weld yn *Atodiad C*).
63. The Vodaphone Group Foundation, 1089625.
64. The Haynes International Motor Museum, 292048.
65. Black Country Connexions, 1092409.
66. Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot Cyf, 1064450.
67. Gofal Cymru, 1000889.
68. Church Mission Society, 220297.
69. The Scottish Hospital of the Foundation of King Charles the Second (Royal Scottish Corporation – seiliedig yn Llundain), 207326.
70. Walsall C.V.S., 1074659.

Cwestiwn 7b): Beth yw prif amcanion blynyddol yr elusen ar gyfer y flwyddyn nesaf?

Mae ein *Nodiadau Canllaw ar gyfer y Ffurflen Gwybodaeth Gryno* yn datgan:

Nod y cwestiwn hwn yw cynnig modd i'ch elusen amlinellu ei hamcanion blynyddol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Dylech nodi ac esbonio amcanion sy'n cael deilliannau allanol, yn hytrach nag amcanion rheoli mewnol. Dylid rhoi blaenoriaeth i ddatgelu amcanion sy'n ymwneud â deilliannau allanol yn hytrach na rheolaeth fewnol. Os yw'n bosib dylid eu mynegi mewn ffordd sy'n cynnig modd i'r darllenydd asesu sut y bydd yr amcanion yn cyflawni nod cyffredinol yr elusen ymhellach.

Roedd atebion yn amrywio o'r cryno:

'Bob amser yn ceisio gwella'[71]

neu:

'Gweler Cynllun B.'[72]

i'r ateb hwy:

'- Adeiladu pwll nofio a chyfleusterau cysylltiedig yn Ysgol Portfield

- Datblygu cyfleusterau gweithgareddau dydd newydd i oedolion yng ngorllewin Dorset

- Comisiynu cartref gofal preswyl newydd i oedolion yng ngorllewin Dorset.'[73]

Hefyd roedd rhai elusennau wedi defnyddio ffeithiau a ffigurau i esbonio eu hymateb:

'Cynnal rhaglen ymchwil £2.5 miliwn, gydag ymrwymiadau o £660,000 o wariant yn ystod y flwyddyn

Cynnal adnoddau gwybodaeth cyhoeddus a meddygol, a'u cynnig ar-lein lle bynnag y bo'n bosib, a sicrhau eu bod ar gael am ddim ac yn gyffredinol

Cynnal gwasanaeth llinell gymorth 24 awr. Bod yn gyfaill i bobl mewn gofid oherwydd meningitis a septicaemia

Cynnal ac, os yw'n bosib, cynyddu incwm o berfformiad 2004/05.'[74]

Ymagwedd arall oedd rhoi ymateb fwy lefel uchel, naill ai gyda neu heb fwy o esboniad ynghylch sut yr oedd elusen yn gobeithio cyrraedd nod benodol:

'• Darparu 'llais' a chynrychiolaeth i sector gwirfoddol a chymunedol Hampshire, a chymunedau gwledig

• Hybu gwneud penderfyniadau a gweithredu yn seiliedig yn y gymuned

• Hybu partneriaeth gyfartal rhwng y sector gwirfoddol, preifat a chyhoeddus

• Darparu polisi a swyddogaeth gwybodaeth i'r sector gwirfoddol a chymunedol, a chymunedau gwledig

• Creu a rhedeg prosiectau llwyddiannus i wella gwaith sector gwirfoddol a chymunedol Hampshire, a bywydau cymunedau gwledig.'[75]

71. Ahavat Shalom Charity Fund, 283397.
72. Opportunity Housing Trust, 517149.
73. The Wessex Autistic Society, 1000792.
74. Meningitis Research Foundation, 1091105.
75. Community Action Hampshire, 1053806.

Trefn lywodraethu'r elusen

Cwestiwn 8): Sut mae'ch elusen yn sicrhau bod ei threfniadau llywodraethu yn briodol ac yn effeithiol?

Mae ein *Nodiadau Canllaw ar gyfer y Ffurflen Gwybodaeth Gryno* yn datgan:

Mae llywodraethu yn darparu'r mecanwaith ar gyfer cyfeirio a rheoli elusen. Mae llywodraethu da yn hanfodol i sicrhau bod elusen yn gweithredu'n effeithiol. Mae cyhoeddiad y Comisiwn Elusennau CC60 (Nodweddion Elusen Effeithiol) yn diffinio llywodraethu elusen yn effeithiol fel hyn:

'Mae elusen effeithiol yn cael ei gweinyddu gan gorff ymddiriedolwyr hawdd ei adnabod sydd â'r cydbwysedd cywir o sgiliau a phrofiad i weinyddu'r elusen yn effeithiol, yn gweithredu er lles gorau'r elusen a'i buddiolwyr, yn deall ei chyfrifoldebau ac yn gweithredu systemau i'w hymarfer yn effeithiol.'

Mae'r cwestiwn hwn yn bwriadu cynnig modd i chi esbonio'n gryno sut mae'ch elusen yn ceisio sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith a bod gweithdrefnau wedi'u mabwysiadu i adolygu trefniadau o'r fath.

Nid oes rhaid i chi roi disgrifiad llawn o holl drefniadau llywodraethu'ch elusen - mae'n bosib bod y rhain eisoes wedi'u darparu yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ac, os felly, mae'n bosib yr hoffech groesgyfeirio iddynt yn y crynodeb hwn. Dylech esbonio sut rydych yn sicrhau bod y trefniadau hyn yn briodol ac yn effeithiol.

Cofiwch nid yw llawer o aelodau'r cyhoedd yn deall sut mae elusen yn cael ei rhedeg, felly gwnewch eich pwyntiau'n glir ac yn syml.

Roedd rhai elusennau wedi canolbwyntio ar ddisgrifio'r camau y maent yn eu cymryd neu yr oeddent wedi'u cymryd i sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu[76] yn briodol ac yn effeithiol:

> ***'Bu'r ymddiriedolwyr yn gweithio ar adolygiad llywodraethu am yr 18 mis diwethaf. O ganlyniad, mae newidiadau i'n erthyglau cymdeithasu wedi cael eu cytuno gyda'r Comisiwn Elusennau a disgwylir iddynt fynd i'r CCC yn Hydref 2005. Mae newidiadau yn cynnwys lleihau nifer yr ymddiriedolwyr i 12 o'r 27 presennol a newid i un pwyllgor gwneud penderfyniadau, sef y bwrdd ymddiriedolwyr'***[77]

Mae'r enghraifft ganlynol hefyd yn awgrymu bod trefniadau llywodraethu yn cael eu hadolygu'n gyson:

> ***'Mae Pwyllgor Llywodraethu gan y Gymdeithas sy'n cynnwys ymddiriedolwyr ac aelod annibynnol gyda'r rôl o fonitro datblygiadau ym maes llywodraethu'r sector gwirfoddol a chynghori'r bwrdd a'r prif weithredwr ar faterion sy'n ymwneud a llywodraethu da ac arfer gorau cydnabyddedig. Mae argymhellion yn seiliedig yn fwyaf aml ar gynnwys CC60 a/neu gyhoeddiadau gan NCVO ac ACEVO, yn arbennig 'Llywodraethu Da, Cod i'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol'.***

76. *'Diffinnir trefniadau llywodraethu'* yn y *Rhestr Termau* i'r *Nodiadau Canllaw* (i'w weld yn *Atodiad C*) fel *'trefniadau sy'n cael eu gwneud gan ymddiriedolwyr yr elusen ar gyfer rheoli'r elusen a'i gweithgaredd'*.
77. Suffolk Wildlife Trust Limited, 262777.

Mae gweithdrefnau recriwtio a sefydlu ymddiriedolwyr wedi cael eu diwygio yn 2005 a chynhaliwyd archwiliad sgiliau yn 2004 a oedd wedi arwain at benderfyniad i gynyddu nifer yr aelodau bwrdd cyfetholedig er mwyn helpu sicrhau y byddai'r holl sgiliau priodol yn cael eu cynrychioli ar y bwrdd.

Cyflwynir asesiad ffurfiol o berfformiad y bwrdd yn 2006.'[78]

Nodwyd bwrdd ymddiriedolwyr amrywiol a chynhwysol fel ffordd o sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn parhau i fod yn effeithiol ac yn briodol, yn ogystal ag:

- arfarnu'r bwrdd ymddiriedolwyr[79];
- gwybod am ddatblygiadau yn y sector (gyda pheth esboniad o sut y maent yn gwneud hyn) er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn parhau i fod yn briodol ac yn effeithiol;[80]
- hyfforddi ymddiriedolwyr;[81]
- darparu proses sefydlu briodol i ymddiriedolwyr;[82]
- gofyn i is-bwyllgorau, ymddiriedolwyr neu'r ddau arolygu meysydd[83] neu agweddau arbennig ar drefniadau llywodraethu elusen;[84]
- cynnal sianeli cyfathrebu effeithiol rhwng y bwrdd, staff a defnyddwyr gwasanaeth[85].

Roedd rhai elusennau wedi rhoi atebion lefel uchel, fel:

'Strwythur y Sefydliad.'[86]

Yn olaf, roedd ambell i ymateb yn cynnwys disgrifiadau manwl o drefniadau llywodraethu'r elusen, fel telerau'r ddogfen lywodraethol:

'Fel cwmni cyfyngedig, mae Papworth yn cael ei lywodraethu gan ei Aelodau. Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cael ei ethol gan yr Aelodau mewn Cyfarfod Cyffredinol. Hefyd gall ymddiriedolwyr gyfethol Ymddiriedolwyr ychwanegol i'r Bwrdd, ac, wedi hynny, mae'n rhaid iddynt, gael eu hethol gan Aelodau mewn Cyfarfod Cyffredinol. Mae'r holl Ymddiriedolwyr presennol wedi cael eu hethol gan yr Aelodau mewn Cyfarfod Cyffredinol. Mae ymddiriedolwyr yn cwrdd chwe gwaith y flwyddyn i adolygu rheolaeth y sefydliad.

Maent yn cyflogi rheolwyr i ymgymryd â'r gwaith o redeg gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Bydd ymddiriedolwyr hefyd yn cwrdd â rheolwyr ar Bwyllgorau i drafod gweithgareddau gweithrediadau penodol y sefydliad yn fwy manwl. Mae aelodaeth Pwyllgorau yn adlewyrchu buddiannau ac arbenigedd yr Ymddiriedolwyr.

Bydd ymddiriedolwyr yn cael eu hethol am dair blynedd, ac wedi hynny byddant yn ymddeol. Gallant gael eu hailethol gan yr Aelodau.

Nid yw ymddiriedolwyr yn cael cyflog, ond gallant hawlio treuliau ar gyfer bod yn bresennol mewn cyfarfodydd. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi adolygu ein trefniadau llywodraethu ac wrthi'n recriwtio dau Ymddiriedolwr ychwanegol ar hyn o bryd.

Bydd ymddiriedolwyr yn adolygu cyfansoddiad y Bwrdd yn gyson, a hefyd effeithiolrwydd y Bwrdd trwy gofnodi presenoldeb mewn cyfarfodydd ac adolygu materion a drafodir yn yr Agenda.'[87]

78. Motor Neurone Association, 294354.
79. Er enghraifft: Threshold Support, 298096; Community Action Hampshire, 1053806.
80. Er enghraifft: Arch (North Staffs) Ltd., 701376.
81. Er enghraifft: Age Concern Caerdydd a Bro Morgannwg, 260189.
82. Er enghraifft: Voluntary Service Overseas (VSO), 313757; Wolverhampton YMCA Limited, 1043739.
83. Er enghraifft: Radha Soami Satsang Beas British Isles, 1013061; The Frontiers Charitable Trust, 1065086.
84. Er enghraifft: Is-grŵp llywodraethu VSO (313757) ; Grŵp datblygu bwrdd Gofal Cymru (1000889).
85. Er enghraifft: Gofal Cymru, 1000889.
86. Birmingham Citizens Advice Bureau Service Ltd., 519639.
87. The Papworth Trust, 211234.

4. Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r ffyrdd amrywiol y mae elusennau wedi dangos eu tryloywder a'u hatebolrwydd gan yr ymatebion a roesant yn y FfGG.

Fel y dywedwyd, nid ydym wedi cynnig sylwadau ar ansawdd ymatebion unigol yn ein sampl. Fodd bynnag, mae'r ffurflenni yn y sampl ar gyfer yr adroddiad hwn wedi dangos yn glir bod rhai ymatebion yn arddangos gwaith elusennau yn dda, ond nid yw eraill yn gwneud hyn cystal. Hoffem glywed barn sylwebyddion cyhoeddus ar y mathau o ymatebion y teimlant fu'n llwyddiannus ac yn llai llwyddiannus.[88]

Cydnabyddwn fod y FfGG yn ffurflen sy'n datblygu, ac felly edrychwn ymlaen at weld elusennau yn parhau i ddatblygu ffyrdd newydd a chreadigol o gwblhau'r ffurflen yn y blynyddoedd i ddod, er mwyn adrodd eu stori yn effeithiol i'r cyhoedd sydd â diddordeb.

88. Anfonwch adborth at sylw'r Is-adran Bolisi gan ddefnyddio'r manylion cyswllt yn *Atodiad Ch*.

Atodiad A - Gwybodaeth gefndir

Hanes

Yn 2002, cyhoeddodd Uned Strategaeth y Llywodraeth yr adroddiad *Gweithredu Preifat, Budd Cyhoeddus*. Un o argymhellion yr adroddiad oedd cyflwyno'r Ffurflen Gwybodaeth Safonol (ei henw y pryd hynny) ar gyfer elusennau gydag incwm blynyddol o fwy na £1 miliwn; roedd yr argymhelliad hwn yn ymateb i angen a ganfuwyd i gynnig gwybodaeth hygyrch a pherthnasol am elusennau i'r cyhoedd.

Yn ei hymateb i adroddiad yr Uned Strategaeth yn 2003, *Elusennau a'r Di-elw: Fframwaith Cyfreithiol Modern*, roedd y Llywodraeth yn cefnogi'r argymhelliad. Cytunwyd y byddai'r Comisiwn Elusennau yn datblygu ac yn cyflwyno Ffurflen Gwybodaeth Gryno (FfGG).

Ymgynghorwyd â'r sector ar ddatblygu'r FfGG a'r nodiadau canllaw cysylltiedig, a chafodd y ffurflen ei chorffori yn y Ffurflen Flynyddol (fel Rhan C) o 2005 ymlaen ar gyfer elusennau perthnasol.

Amcan y FfGG yn ei fformat cyfredol yw darparu gwybodaeth well i'r cyhoedd am weithgareddau'r elusennau mwyaf, hybu ffydd y cyhoedd a chreu ffocws ar gyfer gwella perfformiad.

Cwmpas

Gyda'i gilydd mae Deddf Elusennau 1993 a Rheoliadau (Ffurflen Flynyddol) Elusennau 2005 yn gofyn i elusennau gydag incwm gros blynyddol[89] sy'n fwy na £1 miliwn yn y flwyddyn ariannol flaenorol i gwblhau'r FfGG a'i chyflwyno i'r Comisiwn Elusennau. Felly rydym yn gyfrifol am sicrhau bod elusennau'n cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

Mae'r FfGG yn crynhoi gwybodaeth am holl weithgareddau elusen, gan gynnwys unrhyw weithgareddau is-gwmnïau y mae'n eu rheoli ac yn rhoi cyfrif amdanynt o fewn ei chyfrifon cyfunol.

Gofynnwn i elusennau sy'n rhoi grantiau neu elusennau sy'n fentrau ar y cyd[90] dynnu gwybodaeth o'u cyfrifon cyfunol *'gan esbonio sut mae nodau, strategaethau ac amcanion y cyllid yn ymwneud â'ch elusen nid i'r rhai sy'n derbyn y grant neu'r cyllid'*[91].

Egwyddorion allweddol

Yn dilyn ymgynghoriad y Comisiwn ag elusennau, cytunwyd ar rai egwyddorion pwysig[92] sy'n ffurfio'r sail ar gyfer pwrpas y FfGG fel a ganlyn:

Bydd y wybodaeth yn:

- hawdd ei deall, ac yn ddefnyddiol i'r cyhoedd sydd 'â diddordeb', gan gynnwys rhoddwyr, buddsoddwyr a buddiolwyr;
- rhoi gwybodaeth well i'r cyhoedd am waith elusennau;
- darparu braslun o nodau, gweithgareddau a chyraeddiadau elusen;
- darparu gwybodaeth am ffactorau sydd wedi effeithio ar berfformiad.

Dylai'r wybodaeth:

- cyfeirio at, a dangos cysylltiadau â ffynonellau gwybodaeth mwy manwl, er enghraifft Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwyr a Chyfrifon;
- cyfateb â ffynonellau gwybodaeth eraill
- gallu cael ei dilysu a deillio o sylfaen dystiolaeth glir;
- dangos cyd-destun y wybodaeth a adroddir, a'i harwyddocâd yn y tymor hwy, er enghraifft ei pherthynas â thueddiadau allanol neu berfformiad y flwyddyn flaenorol.

Rhaid i'r wybodaeth:

- gael ei hunan-ardystio trwy gael ei harwyddo gan ymddiriedolwr;
- gael ei chyflwyno fel rhan o'r Ffurflen Flynyddol i'r Comisiwn Elusennau;
- fod ar gael i'r cyhoedd trwy gael ei harddangos ar wefan y Comisiwn Elusennau.

89. Cyfeiriwch at y *Rhestr termau* yn *Atodiad C* am ddiffiniad o incwm gros.
90. Bydd gweithgareddau menter ar y cyd wedi'u cynnwys mewn cyfrifon cyfunol.
91. *Nodiadau Canllaw* cyf.
92. *Nodiadau Canllaw* cyf.

Ffurflen Flynyddol 2005

Rhan C Cwblhewch yr adran hon dim ond os yw incwm gros eich elusen yn £1 miliwn neu fwy

Ffurflen Gwybodaeth Gryno

Bwriedir i'r ffurflen hon ddarparu **crynodeb** o'r wybodaeth **allweddol** yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfrifon a dogfennau eraill.

Enw'r elusen:		**Rhif yr elusen:**	

Am y flwyddyn yn diweddu:	

Cwestiwn 1: Nod yr elusen

Beth yw nod eich elusen?

Manylion pellach i'w cael gan:

Cwestiwn 2: Pwy sy'n elwa?

a) Pwy sy'n elwa o waith yr elusen?

b) Sut ydych chi'n ymateb i'w hanghenion a sut ydyn nhw'n dylanwadu ar ddatblygiad yr elusen?

Manylion pellach i'w cael gan:

Cwestiwn 3: Strategaeth yr elusen	
a) Beth yw elfennau allweddol strategaeth eich elusen yn y tymor canolig i'r tymor hir?	
b) Sut mae'ch elusen yn mesur llwyddiant y strategaeth?	
Manylion pellach i'w cael gan:	

Cwestiwn 4: Amcanion a chyraeddiadau'r elusen	
Beth oedd prif amcanion blynyddol eich elusen ac a gawsant eu cyflawni?	
Amcan	*Cyrhaeddiad*
●	
●	
●	
●	

Cwestiwn 5: Incwm a gwariant yr elusen		
a) Beth oedd ffynonellau incwm eich elusen yn ystod y flwyddyn?		
Ffynhonnell incwm	% incwm gros	£ 000
1. Incwm gwirfoddol		
2. Gweithgareddau ar gyfer cynhyrchu cronfeydd		
3. Incwm buddsoddi		
4. Adnoddau a dderbyniwyd o weithgareddau elusennol		
5. Adnoddau eraill a dderbyniwyd		
Cyfanswm	100%	

b) Beth oedd prif weithgareddau eich elusen yn ystod y flwyddyn, a faint oedd yr elusen wedi'i wario arnynt?	
Gweithgareddau elusennol	Cost £ 000
●	
●	
●	
Arall	
Cyfanswm gwariant ar weithgareddau elusennol	
Cyfanswm gwariant	
Sylwadau esboniadol	

c) Beth oedd tri phrif weithgaredd codi arian eich elusen yn ystod y flwyddyn, faint oedd pob gweithgaredd wedi codi a beth oedd y gost?		
Gweithgaredd codi arian	Incwm a gynhyrchwyd £ 000	Cost y gweithgaredd £ 000
1.		
2.		
3.		
Arall		
Cyfanswm incwm gwirfoddol a gweithgareddau ar gyfer cynhyrchu cronfeydd		
Cyfanswm cost cynhyrchu incwm gwirfoddol a masnachu codi arian		
Sylwadau esboniadol		

Manylion pellach i'w cael gan:	

Cwestiwn 6: Sefyllfa ariannol yr elusen
Sut byddech chi'n disgrifio sefyllfa ariannol eich elusen ar ddiwedd y cyfnod?
Manylion pellach i'w cael gan:

Cwestiwn 7: Y flwyddyn nesaf	
a) Sut bydd perfformiad cyffredinol y flwyddyn ddiwethaf yn effeithio ar strategaeth eich elusen yn y tymor canolig i'r tymor hir?	
b) Beth yw prif amcanion blynyddol eich elusen ar gyfer y flwyddyn nesaf?	
●	
●	
Manylion pellach i'w cael gan:	

Cwestiwn 8: Dull llywodraethu'r elusen	
Sut mae'ch elusen yn sicrhau bod ei threfniadau llywodraethu yn briodol ac yn effeithiol?	
Manylion pellach i'w cael gan:	

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cyflwyno Rhan A a Rhan B Ffurflen Flynyddol 2005.

Datganiad

Gall fod yn dramgwydd i roi atebion y gwyddoch neu rydych yn amau eu bod yn anghywir neu'n gamarweiniol.

Tystiaf fod yr wybodaeth yn y ffurflen hon yn gywir hyd orau fy ngwybodaeth ac mae wedi cael ei dwyn at sylw'r holl ymddiriedolwyr elusen.

Wedi'i harwyddo gan un o'r ymddiriedolwyr elusen ar ran yr holl ymddiriedolwyr:

Dyddiad:

Teitl:

Enw llawn:

Rhif ffôn yn ystod y dydd:

Gall fod yn ddefnyddiol i chi gadw copi o'ch ffurflen wedi'i chwblhau

Manylion cyswllt

Cyfeiriad: Comisiwn Elusennau Uniongyrchol
Blwch SP 1227
Lerpwl
L69 3UG

Canolfan Gyswllt 0845 300 0218
Gwefan: www.charitycommission.gov.uk

Atodiad C - Rhestr termau

Mae'r rhestr termau ganlynol yn deillio o'r *Nodiadau Canllaw* ac wedi'i chynnwys yma i'w chyfeirio ati.

Adnoddau eraill sy'n dod i mewn: holl adnoddau sy'n dod i mewn yr elusen heblaw'r rheiny sydd wedi'u categoreiddio fel Incwm Gwirfoddol, Incwm o Weithgareddau ar gyfer Cynhyrchu Cronfeydd, Incwm Buddsoddiadau ac Adnoddau sy'n Dod i Mewn o Weithgareddau Elusennol.

Adnoddau sy'n dod i mewn o weithgareddau elusennol: unrhyw adnoddau sy'n dod i mewn sy'n daliad am nwyddau neu wasanaethau a ddarperir er budd buddiolwyr yr elusen. Maent yn cynnwys incwm sy'n deillio o:

- Gwerthu nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd fel rhan o weithgaredd elusennol uniongyrchol (masnachu prif bwrpas);
- Gwerthu nwyddau neu wasanaethau sydd wedi'u gwneud neu eu darparu gan fuddiolwyr yr elusen;
- Gosod eiddo heb fod yn fuddsoddiad er mwyn hybu amcanion yr elusen;
- Taliadau cytundebol gan y llywodraeth neu awdurdodau cyhoeddus os cânt eu derbyn ym musnes arferol masnachu dan y tri chategori uchod (e.e. ffioedd am ofal seibiant);
- Grantiau gydag amodau sy'n eu gwneud yn debyg yn nhermau economaidd i incwm masnachu, fel cytundebau lefel gwasanaeth gydag awdurdodau lleol.

Allbynnau: y gweithgareddau, gwasanaethau a'r nwyddau a ddarperir i ddefnyddwyr. Mae'r rhain yn dangos maint y gwaith a wnaed, gan gynrychioli cynnyrch uniongyrchol yr elusen sy'n deillio o'i gweithgareddau.

Amcanion: y nodau y mae'r elusen yn bwriadu eu cyflawni er mwyn gwireddu ei nodau a hyrwyddo ei strategaeth, dros gyfnod o flynyddoedd fel arfer.

Blwyddyn: y flwyddyn y mae'r Crynodeb wedi'i baratoi ar ei chyfer. Fel arfer bydd yr un flwyddyn â'r flwyddyn y paratowyd Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a Chyfrifon ar ei chyfer.

Buddiolwyr: personau, pobl neu gyrff a allai gael budd dan ymddiriedolaethau elusennol.

Canlyniadau: canlyniad neu'r hyn sy'n deillio o'r camau y mae'r elusen yn eu cymryd. Gall fod yn ariannol neu heb fod yn ariannol.

Cenhadaeth: tasgau neu ddyletswyddau y mae'r elusen eisiau eu cyflawni.

Cerrig milltir: digwyddiadau allweddol yn y cynnydd tuag at fodloni nodau ac amcanion.

Cynllun: disgrifiad ysgrifenedig o'r camau y mae'r elusen yn bwriadu eu cymryd i gyflawni pethau penodol. Gweler hefyd Strategaeth.

Cyraeddiadau: pethau y mae'r elusen wedi'u cyflawni.

Dangosyddion: gwybodaeth glir, sy'n hawdd ei mesur, sy'n dangos sut mae'r elusen yn perfformio.

Defnyddwyr Gwasanaeth: unrhyw un sy'n defnyddio neu'n cael budd o wasanaethau neu gyfleusterau elusen, boed gan wirfoddolwyr neu dan wasanaeth cytundeb.

Deilliannau: y newidiadau, buddion, dysgu neu effeithiau eraill sy'n digwydd o ganlyniad i wasanaethau neu weithgareddau'r elusen.

Effaith: effeithiau cyffredinol, mwy tymor hir gwaith yr elusen.

Gwasanaethau: y nwyddau, grantiau, gwybodaeth a gweithgareddau y mae'r elusen yn eu darparu ar gyfer ei defnyddwyr.

Gweithgareddau: unrhyw beth a wnaed trwy ddefnyddio adnoddau'r elusen neu adnoddau sydd dan ei rheolaeth, a chan gynnwys ei holl waith a'i gwasanaethau.

Gweithgareddau allweddol: y gweithgareddau pwysicaf y mae'r elusen yn ymgymryd â nhw.

Gweithgareddau codi arian: gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu adnoddau sy'n dod i mewn o bob ffynhonnell ond heb gynnwys gweithgareddau elusennol. Maent yn cynnwys cynhyrchu Incwm Gwirfoddol, ymgymryd â Masnachu Codi Arian a darparu gwasanaethau anelusennol i gynhyrchu incwm.

Mae'r incwm o'r gweithgareddau hyn yn cael ei gategoreiddio yn Natganiad o Weithgareddau Ariannol yr elusen naill ai fel Incwm Gwirfoddol neu fel Gweithgareddau ar gyfer Cynhyrchu Cronfeydd. Dylai cost y gweithgareddau hyn fod wedi cael ei gategoreiddio yn Natganiad o Weithgareddau Ariannol yr elusen naill ai fel Costau Cynhyrchu Incwm Gwirfoddol neu fel Masnachu Codi Arian.

Gweithgareddau elusennol: y gwaith a wneir gan yr elusen i gyflawni ei hamcanion elusennol. Nid ydynt yn cynnwys costau codi arian i gyllido gweithgareddau'r elusen a'i chostau llywodraethu.

Gweithgareddau i gynhyrchu cronfeydd: gweithgareddau masnachu y mae'r elusen yn ymgymryd â nhw yn benodol i gynhyrchu adnoddau sy'n dod i mewn. Maent yn cynnwys:

- Digwyddiadau codi arian fel ffeiriau sborion, arddangosiadau tân gwyllt a chyngherddau (sy'n cael eu hystyried yn weithgareddau masnachu yn ôl y gyfraith);
- Gweithgareddau masnachu anelusennol;
- Ffioedd ar gyfer unrhyw wasanaethau a ddarperir i'r rhai nad ydynt yn fuddiolwyr;
- Incwm a gynhyrchir trwy siopau yn gwerthu naill ai nwyddau sydd wedi cael eu prynu i mewn neu nwyddau a roddwyd;
- Unrhyw incwm loteri neu nawdd nad oes modd ei ystyried fel rhoddion syml.

Gweledigaeth: y ddelfryd y mae'r elusen yn gweithio tuag at ei chyflawni.

Gwerthoedd: cyfres o egwyddorion y mae elusen yn ceisio eu defnyddio wrth osod ei chenhadaeth a'i nodau yn ei gweithrediadau o ddydd i ddydd.

Gwybodaeth ansoddol: gwybodaeth sy'n ddisgrifiadol a deongliadol yn bennaf.

Gwybodaeth feintiol: gwybodaeth sy'n rhifiadol yn bennaf.

Incwm buddsoddiadau: adnoddau sy'n dod i mewn o asedau buddsoddiad, gan gynnwys difidendau, llog a rhenti a dderbynnir gan eiddo buddsoddiad. Nid yw'n cynnwys enillion a cholledion buddsoddi wedi'u realeiddio a heb eu realeiddio.

Incwm Gros: cyfanswm incwm a gofnodwyd eich elusen o bob ffynhonnell gan gynnwys yr incwm a dderbyniwyd at ddibenion cyfyngedig. Nid yw'n cynnwys unrhyw enillion cyfalaf sy'n deillio o fuddsoddiadau neu unrhyw ail-werthuso asedau sefydlog yn y flwyddyn. Dylai'r manylion a ddarperir ar y ffurflen hon gyfateb â chyfrifon statudol eich elusen a bydd yn hafal i gyfanswm adnoddau sy'n dod i mewn eich elusen, fel y dangosir yn ei Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

Incwm gwirfoddol: adnoddau sy'n dod i mewn a ddarperir i'r elusen na ddisgwylir i'r elusen ddarparu unrhyw beth yn gyfnewid amdanynt. Mae incwm gwirfoddol yn cynnwys.

- Rhoddion a chyfraniadau;
- Tanysgrifiadau aelodaeth sy'n rhodd o ran natur yn bennaf;
- Cymynroddion;
- Grantiau o natur cyllid cyffredinol neu graidd (ond nid grantiau sy'n gofyn am ddarparu gwasanaeth elusennol arbennig);
- Rhoddion o fath arall, cyfleusterau neu wasanaethau a roddir os ydynt wedi'u cynnwys yng nghyfrifon statudol yr elusen.

Meincnodau: y meini prawf a ddefnyddir i fesur rhywbeth, fel deilliannau gweithgaredd elusennol.

Mewnbynnau: yr adnoddau a'r gweithgareddau a ddefnyddir o fewn yr elusen i ddarparu'r gwasanaethau a gynigir, er enghraifft, amser staff a gwirfoddolwyr, defnyddio cyfarpar ac ati.

Nodau: y newidiadau y mae'r elusen yn bwriadu eu gwneud, neu'r gwahaniaeth y mae'n gobeithio ei wneud.

Rhanddeiliaid: unrhyw berson, grŵp, neu sefydliad a chanddynt ddiddordeb yn, neu sy'n disgwyl rhywbeth gan yr elusen.

Strategaeth: dull wedi'i gynllunio ar gyfer cyflawni amcanion tymor hwy. Fel arfer bydd strategaeth tymor canolig i dymor hir yn cwmpasu cyfnod o dair i bum mlynedd neu fwy.

Targedau: Nodau neu amcanion a osodir gan yr elusen ar ddechrau cyfnod ac yna'n cael eu defnyddio i fesur cyraeddiadau.

Trefniadau llywodraethu: trefniadau'r ymddiriedolwyr elusen ar gyfer rheoli'r elusen a'i gweithgareddau.

Ymddiriedolwyr: gweler ymddiriedolwyr elusen.

Ymddiriedolwyr elusen: y bobl sydd, dan ddogfen lywodraethol yr elusen, yn gyfrifol am reolaeth gyffredinol yr elusen ac am sicrhau ei bod yn cael ei rheoli'n briodol. Yn nogfen lywodraethol yr elusen gallant gael eu galw'n ymddiriedolwyr.

Atodiad Ch - Adnoddau

Nodiadau Canllaw y FfGG yw'r prif adnodd y gall ymddiriedolwyr a staff elusen eu defnyddio i'w helpu cwblhau'r FfGG. Hefyd cyhoeddwn pob FfGG wedi'i chwblhau ar ein gwefan ac mae'n bosib y bydd y rhain yn ddefnyddiol pan fyddwch yn cwblhau eich FfGG.

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr

Hefyd mae'r Comisiwn Elusennau yn cynhyrchu ystod eang o gyhoeddiadau ac arweiniad ar y wefan sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor i ymddiriedolwyr elusennau a'r cyhoedd am faterion sy'n ymwneud â'r gyfraith elusennau, rheoleiddio ac arfer gorau. Fe welwch restr gyhoeddiadau lawn ar ein gwefan (www.charitycommission.gov.uk) ac yn ein cyhoeddiad CC1.

Sut i gysylltu â ni

Cewch fwy o wybodaeth am y Comisiwn ac ystod o ganllawiau i elusennau ar ein gwefan neu drwy gysylltu â'r Comisiwn Elusennau Uniongyrchol:

Ffôn: **0845 300 0218** (calls charged at local rate)

Minicom: **0845 300 0219**

E-bost: enquiries@charitycommission.gsi.gov.uk

Trwy'r post:

Comisiwn Elusennau Uniongyrchol
Blwch SP 1227
Lerpwl
L69 3UG

Atodiad D - Llyfryddiaeth

Swyddfa'r Cabinet (2002): ***Gweithredu Preifat, Budd Cyhoeddus: Adolygiad o Elusennau a'r Sector Di-elw Ehangach*** adolygiad o fframwaith cyfreithiol a rheoleiddio'r sector di-elw, lle mae elusennau'n ffurfio'r mwyafrif. Ar gael yn:

www.strategy.gov.uk/downloads/su/voluntary/report/downloads/strat-data.pdf

Comisiwn Elusennau (2004): ***Tryloywder ac Atebolrwydd*** **(RS8)** cyflwyno casgliadau dadansoddiad o'r wybodaeth a ddarparwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon sampl o 200 o'r elusennau mwyaf. Ar gael yn:

www.charitycommission.gov.uk/library/publications/pdfs/rs8text.pdf

Swyddfa Gartref (2003): ***Elusennau a'r Di-elw: Fframwaith Cyfreithiol Modern*** ymateb y Llywodraeth i Gweithredu Preifat, Budd Cyhoeddus lle mae'r Llywodraeth wedi derbyn bron pob argymhelliad yn Gweithredu Preifat, Budd Cyhoeddus gan amlinellu sut yr oedd yn bwriadu gweithredu ar yr argymhellion hynny. Ar gael yn:

www.communities.homeoffice.gov.uk/activecomms/ac-publications/publications/290701/charitiesnotforprofit.eng.pdf?view=Binary

Opinion Leader Research ar gyfer y Comisiwn Elusennau (2005): ***Report of findings of a survey of public trust and confidence in charities*** Mae ***Adroddiad o gasgliadau arolwg ar ffydd a hyder y cyhoedd mewn elusennau*** yn cyflwyno casgliadau arolwg a gomisiynwyd gan y Comisiwn Elusennau i'w helpu deall yn well yr hyn sy'n rhoi ffydd a hyder i'r cyhoedd mewn elusennau. Ar gael yn:

www.charitycommission.gov.uk/Library/spr/pdfs/surveytrustrpt.pdf

Gellir edrych ar y cyhoeddiad hwn ar wefan y Comisiwn Elusennau hefyd:
www.charitycommission.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2006. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu yn gywir ac ni chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a dylid nodi teitl y cyhoeddiad.

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i argraffu ar bapur sy'n dod o adnoddau cynaliadwy yn unig ac nid yw'n cynnwys unrhyw glorin.
Cyflenwyd gab Linney Group
xxxxxx xx/xxxx

Dyluniwyd gan Bang-on-net ac Adran Ddylunio, y Comisiwn Elusennau

Gallwch gael fersiynau print bras o'r cyhoeddiad hwn gan y Comisiwn Elusennau ar 0845 300 0218

Y Comisiwn Elusennau

Ffôn: **0845 300 0218**

Minicom: **0845 300 0219**

Trwy'r post: **Comisiwn Elusennau Uniongyrchol**
Blwch SP 1227
Lerpwl
L69 3UG

Gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**

Yn eu geiriau eu hunain - Sut mae elusennau wedi ymateb ym mlwyddyn gyntaf y Ffurflen Gwybodaeth Gryno. Ionawr 2007

RS14